

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU	AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 6 RHAGFYR 2016 am 2.00 y.p.	TUESDAY, 6 DECEMBER, 2016 at 2:00 p.m.
SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Annibynnol / Independent

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

Plaid Cymru / The Party of Wales

John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Alun W Mummery a Nicola Roberts

Grwp Chwyldroad / Revolutionist Group

Peter Rogers

Heb Ymaelodi/Unaffiliated

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair)

ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 21 MEDI, 2016** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2016.

3 **CYDYMFFURFIO Â SAFONAU CYHOEDDUS ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 9 - 76)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol.
(*Atodiad 1 ar gael yn Saesneg yn unig*)

4 **ARCHWILIO ALLANOL - LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2015/16** (Tudalennau 77 - 80)

Cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol am 2015/16.

5 **ARCHWILIO ALLANOL - TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO** (Tudalennau 81 - 82)

Cyflwyno Tystysgrif Cydymffurfio yng nghyswllt yr archwiliad o asesiad Cyngor Sir Ynys Môn o'i berfformiad yn 2015/16.

6 **RHEOLI TRYSORLYS** (Tudalennau 83 - 168)

- Cyflwyno Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18
- Cyflwyno Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2016/17
- Cyflwyno adroddiad ar Ymarferion Rheoli Trysorlys

7 **BLAENRHAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 169 - 176)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol.

8 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 177 - 178)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

9 **Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL** (Tudalennau 179 - 190)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Risg ac Yswiriant.

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2016

- YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)
Y Cyngorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)
- Y Cyngorwyr Jim Evans, Alun Mummery, Nicola Roberts,
Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas
- Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr (ar gyfer eitem 3)
Dirprwy Brif Weithredwr (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella
Gwasanaethau)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem
4)
Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh (ar gyfer eitem 2)
Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo (BHO)
Pennaeth Archwilio Mewnol (MH)
Rheolwr Archwilio Mewnol (SP)
Swyddog Pwyllgor (ATH)
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorydd Richard Owain Jones
- HEFYD YN
BRESENNOL:** Clare Edge (Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloitte)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 25 GORFFENNAF, 2016

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi –

- **Trefniadau Adfer TGCh ar ôl Trychineb**

Adroddodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh ar y cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â threfniadau adfer TGCh ar ôl trychineb gyda'r nod o sicrhau yn y pendraw bod gan y Cyngor ganolfan bwrpasol oddi ar y safle ar gyfer storio data wrth gefn fydd yn caniatáu adfer systemau busnes hanfodol pe digwydd llifogydd neu dân neu unrhyw drychineb arall. Dywedodd y Swyddog nad yw'r gallu datblygedig hwnnw gan y Cyngor ar hyn o bryd a bod gwybodaeth a gedwir yn yr unig ganolfan ddata sydd ganddo yn cael ei gadw wrth gefn drwy ddulliau eraill. Yn ogystal, nid yw'r offer y mae systemau'r Cyngor yn dibynnu arno yn ddigon cadarn, ac er bod y systemau storio eu hunain yn gadarn ac wedi cael eu rheoli'n ofalus yn y gorffennol, mae'r trefniadau presennol yn agored i risg a phwyntiau methiant unigol.

Esboniodd y Swyddog y gwelliannau a wnaethpwyd i'r ganolfan ddata bresennol o ganlyniad i gynyddu'r buddsoddiad mewn TGCh yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn gwella isadeiledd a systemau busnes yn ogystal â chynhwysedd TGCh cyffredinol o fewn y Cyngor. Yn ogystal buddsoddiwyd mewn technolegau gwasanaeth newydd i gymryd lle technolegau sydd wedi dyddio; gosodwyd system storio newydd o'r math diweddaraf yn lle'r hen system ac mae

systemau storio data wrth gefn newydd yn cael eu gweithredu gyda'r nod ehangach o symud tuag at economi fwy digidol yn Ynys Môn er mwyn gwella'r modd y cyflenwir gwasanaethau i'r trigolion.

Dywedodd y Swyddog bod y technolegau newydd, a brynwyd yn benodol i redeg ar draws y ddwy ganolfan ddata, wedi eu cynllunio er mwyn cael gwared â phob pwynt methiant unigol sy'n golygu bod trefniadau TGCh y Cyngor mewn llawer gwell sefyllfa o gymharu â 12 mis yn ôl. Nid oes costau gorbenion ychwanegol oherwydd bod cynllun y technolegau newydd yn cyrraedd y gofynion arfer gorau a dilynwyd arferion caffael da wrth eu prynu. Mae'r technolegau hyn i fod i ddarparu cadernid ar draws y ddwy ganolfan ddata heb greu cost ychwanegol a byddant yn rhoi sylfaen gadarn i'r isadeiledd craidd er mwyn cefnogi uchelgais digidol y Cyngor yn y dyfodol e.e. App Môn. Nod yr ymdrechion hyn yn y pendraw fydd adeiladu ail gyfleuster fydd yn cynnig y datrysiad gorau posib ar gyfer storio data wrth gefn a dyma'r dasg a roddwyd i'r Gwasanaeth TGCh a rhoddyd cyllid cyfalaf i'r gwasanaeth er mwyn cyflawni hynny. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau, a bydd y ddwy ganolfan ddata gyda'i gilydd yn gweithredu, ac yn cael eu rheoli, fel un endid er y byddant mewn lleoliadau ar wahân. Golyga hyn y byddai'r Cyngor, petai'n colli defnydd y ganolfan ddata bresennol, yn gallu parhau i redeg ei holl fusnes o'r ganolfan ddata arall, ac i'r gwrthwyneb, am y rheswm y bydd yr holl dechnolegau wedi eu cynllunio i redeg ar draws y ddwy ganolfan ac yn gwarantu drwy hynny argaeledd systemau busnes y Cyngor y tu hwnt i'r busnesau craidd hollbwysig. Mae hyn yn opsiwn mwy economaidd a hyblyg na defnyddio datrysiad storio data wrth gefn gan ddarparu'r trydydd parti gan na fyddai'r olaf, yn ôl pob tebyg, yn gallu darparu cadernid ar gyfer pob un o'r 112 system busnes sydd gan y Cyngor. Y sefydliad fydd yn penderfynu pa systemau i'w blaenoriaethu petai trychineb yn digwydd a bydd hynny'n rhan o'r Cynllun Adfer ar ôl Trychineb sydd bellach wedi ei lunio. Bydd y systemau busnes a flaenoriaethir yn seiliedig ar waith a wneir gyda gwasanaethau unigol ond bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan yr UDA, gan gymryd i ystyriaeth galwadau tymhorol a natur y digwyddiad fydd felly'n caniatáu i'r Cyngor ymateb i alwadau sy'n newid o fewn y sefydliad.

Dywedodd y Swyddog y bydd y cyfleuster newydd, unwaith y bydd yn weithredol, yn cael gwared â'r pwyntiau methiant unigol sydd yn weddill. Bydd yn darparu ar gyfer adfer ar ôl trychineb, creu data wrth gefn ac yn hollbwysig, bydd yn caniatáu i wasanaethau'r Cyngor weithredu'n ddi-dor. Cynllunnir systemau hanfodol fel eu bod yn cael eu cyflenwi ar draws y ddwy ganolfan ddata, ni fydd pwynt methiant unigol a bydd y system yn gallu ymateb i alwadau. Bwriedir i'r trefniadau newydd fynd yn fyw ym mis Rhagfyr, 2016 ond mae'n bosib y gall eu gweithredu lithro i'r Flwyddyn Newydd.

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth a gyflwynwyd gan wneud y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod sylw priodol yn cael ei roi i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Adfer TGCh ar ôl Trychineb, bod cynnydd da wedi ei wneud a bod Rheolwyr yn y broses o gwblhau trefniadau i sicrhau bod systemau busnes y Cyngor yn cael eu hamddiffyn a'u bod yn parhau'n hyfyw petai'r risgiau hynny'n dod yn ffaith.
- Nododd y Pwyllgor bod y technolegau a'r systemau newydd wedi eu caffael yn effeithlon gan ddilyn arferion da wrth brynu ac na fyddant yn creu costau gorbenion ychwanegol. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh bod y Strategaeth TGCh hefyd yn rhoi sylw i herio a rhesymoli portffolio meddalwedd y Cyngor ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â hynny lawer iawn uwch na chostau isadeiledd a disgrifiodd y camau sy'n cael eu cymryd i wneud hynny.
- Nododd y Pwyllgor bod y camau sy'n cael eu cymryd i uwchraddio systemau electronig a TGCh yn cyfrannu at gyflawni un o amcanion strategol allweddol y Cyngor sef digideiddio a gwella argaeledd gwasanaethau.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch hirhoedledd y technolegau a gafwyd a'r strategaeth ar gyfer eu hailgyflenwi mewn modd economaidd. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid TGCh y bydd y gwasanaeth yn gwneud bid i'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn er mwyn ailosod 25% o'r holl isadeiledd craidd fel bod y gwasanaeth wedi adnewyddu'r holl isadeiledd dros gyfnod o 4 mlynedd. Mae'r gwasanaeth TGCh yn ymwybodol o'r gofynion sydd ar y gyllideb gyfalaf ac felly bydd yn targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu tuag at gyflwyno rhyw fath o effeithlonrwydd a gwelliant rhywle arall o fewn y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth a nodi'r cynnydd a wnaed.

• Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol

Mewn perthynas ag angen y Tîm Rheoli i sicrhau cyfathrebu amserol ac effeithiol er mwyn darparu darlun clir o ba mor dda mae gwasanaethau'n gweithredu argymhellion archwiliad mewnl cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y mater yn ymwneud â'r Tîm Rheoli'n sicrhau y caiff y system 4 action sy'n cofnodi gweithrediad argymhellion archwiliad mewnl ei ddiweddarau mewn modd amserol a phriodol fel bod y Rheolwr Archwilio Mewnol yn cael darlun clir o'r sefyllfa ac yn gallu cyflwyno'r wybodaeth honno'n gywir i'r Pwyllgor Archwilio drwy gyfrwng adroddiad cynnydd chwarterol. Dywedodd y Swyddog fod y neges ynglŷn â'r angen am eglurder yn yr hyn sy'n cael ei adrodd drwy'r system 4 action wedi ei drosglwyddo i'r Penaethiaid Gwasanaeth yn y cyfarfod Penaethiaid a gobeithir yn awr y bydd y neges yn cael ei rhaedru drwy'r strwythur rheoli.

Derbyniwyd a nodwyd yr wybodaeth gan y Pwyllgor.

3 DATGANIAD O'R CYFRIFON 2015/16 AC ADRODDIAD ISA 260

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad o'r Cyfrifon 2015/16 a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2015/16 i'r Pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod cyfrifon drafft 2015/16 wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Mehefin, 2016 a'u bod, yn dilyn hynny, wedi eu cyflwyno i gael eu harchwilio'n allanol gyda'r broses honno wedi digwydd yn ystod misoedd yr haf gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i orffen. Mae nifer o newidiadau i'r drafft wedi eu hymgorffori i'r cyfrifon ac mae manylion wedi eu cynnwys yn Adroddiad ISA 260 yr Archwiliwr; rhoddir crynodeb o'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r datganiad drafft ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog bod gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu argymhell bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol ond mae un mater sydd angen ei ddatrys cyn y gellir gwneud hynny.

Esboniodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod yr archwilwyr, wrth archwilio'r datganiadau ariannol, yn ymgymryd â phroffion sylweddol mewn perthynas â rhai adrannau o'r cyfrifon. Yn ystod y broses samplu, mae'r archwilwyr wedi adnabod tri ased isadeiledd gwerth cyfanswm o £5.336m y maent yn gofyn am dystiolaeth ar eu cyfer er mwyn cadarnhau eu bodolaeth a'u perchnogaeth. Cadarnhaodd y Swyddog bod gwerth un o'r asedau y mae angen tystiolaeth ar ei gyfer yn cael ei ddangos fel £4m yn y cyfrifon, ac oherwydd natur hanesyddol yr ased, nid yw'r Gwasanaeth Cyllid hyd yma wedi llwyddo i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol yn rhannol oherwydd bod systemau wedi newid dros amser ac yn rhannol oherwydd problemau cael mynediad at gofnodion papur gan fod cyfyngiad amser ar gadw'r cofnodion hynny. Er bod ymdrechion i ddatrys y broblem yn parhau a rhagwelir y bydd y mater yn cael ei ddatrys yn fuan, nid yw'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu darparu'r sicrwydd angenrheidiol i'r archwilwyr mewn perthynas â'r eitem hon er mwyn galluogi iddynt ardystio'r cyfrifon yn ddiamod. Golyga hyn nad yw'r Pwyllgor Archwilio mewn sefyllfa yn y cyfarfod heddiw i argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cyfrifon yn y cyfarfod ar 27 Medi. Y rheswm am hyn yw y gall y cyfrifon newid yn ddibynnol ar sut fydd y mater sy'n sefyll yn cael ei ddatrys a'r canlyniad o safbwynt beth fydd yn cael ei ddangos yn y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, hynny gallai'r Awdurdod oedi cyn cymeradwyo'r cyfrifon hyd nes y bydd yr archwilwyr wedi derbyn y sicrwydd angenrheidiol ond byddai hynny'n golygu cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor, neu byddai modd i'r archwilwyr gynhyrchu adroddiad amodol. Yn dilyn trafodaethau â'r Cadeirydd a'r archwilwyr, mae'r Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad ariannol wedi cadarnhau ei fod yn fodlon â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatrys y mater ac i ddarparu'r sicrwydd sydd ei angen ar yr archwilwyr, felly argymhellir bod y Pwyllgor yn dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i gymeradwyo'r cyfrifon i'r Cyngor unwaith y bydd y mater sy'n sefyll wedi ei ddatrys a bod yr archwilwyr yn fodlon â'r sicrwydd a gafwyd ynghylch y mater ac mewn sefyllfa i gyhoeddi barn ddiamod.

Nododd y Pwyllgor y sefyllfa ac wedi gofyn am eglurhad pellach am y mater dan sylw, hyd a lled y sicrwydd sydd ei hangen ar yr archwilwyr a'r goblygiadau, derbyniwyd yr argymhelliad a gynigiwyd

bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn cael eu hawdurdodi i gydlynu â'r Gwasanaeth Cyllid a'r archwilwyr o ran cadarnhau'r cyfrifon ac yn dilyn hynny i'w cymeradwyo i'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y Cod Ymarfer presennol y mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol ag o yn gofyn bod gwerth asedau isadeiledd yn cael eu dangos ar y fantolen, ac oherwydd mai asedau isadeiledd ydynt golyga hynny bod rhaid adlewyrchu'r gwariant cyfalaf arnynt yn ystod y flwyddyn. Gan fod y gwariant yn parhau o un flwyddyn i'r llall, mae gwerth yr asedau'n cynyddu. Mae newid yn y rheoliadau'n golygu y bydd rhaid i'r Awdurdod ail brisio ei asedau isadeiledd y flwyddyn nesaf a bydd y ffigur ailbrisio'n cael ei ddangos yn y cyfrifon. Bydd manylion ategol ar gael yn rhwydd sy'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd y mater penodol a gododd yn 2015/16 yn digwydd eto.

Cadarnhaodd Ms Clare Edge, Rheolwr Archwilio Ariannol, fod y mater wedi codi drwy gynnal profion samplu a bod yr archwilwyr wedi ceisio sefydlu beth oedd yr eitemau isadeiledd yn y sampl, yn nhermau eu bodolaeth a'u perchnogaeth ac, o ystyried bod balans un o'r eitemau yn £4m, byddent wedi disgwyl gweld tystiolaeth archwilio yn cadarnhau eu bod yn wir asedau.

Penderfynwyd –

- **Derbyn a nodi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2015/16 yn ddibynnol ar ddatrys y mater sy'n sefyll fel y cafodd ei adrodd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.**
 - **I ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i argymhell y Datganiad o Gyfrifon 2015/16 ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor ar ôl derbyn cadarnhad gan yr archwilwyr bod y mater sy'n sefyll yn y cyfrifon wedi'i ddatrys yn foddhaol a'u bod yn gallu cyhoeddi barn ddiamod.**
 - **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blyneddol ar gyfer 2015/16 a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.**
- Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar yr archwiliad a gynhaliwyd ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2015/16 (ISA 260) er ystyriaeth gan y Pwyllgor.

Cadarnhaodd Ms Clare Edge, Rheolwr Archwiliad Ariannol, bod yr Archwiliwr Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar y datganiadau ariannol, yn ddibynnol bod y gwaith sy'n sefyll yn cael ei gwblhau'n foddhaol gan gynnwys y mater y cyfeiriwyd ato uchod. Cadarnhaodd y Swyddog y canlynol hefyd:

- Nad oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y datganiadau ariannol.
- Bod camddatganiadau a gywirwyd gan y Tîm Rheoli yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio yn unol â chyfrifoldebau'r Pwyllgor dros y broses adrodd ariannol (Atodiad 3 yn yr adroddiad).
- Nid oes materion yn codi o'r risgiau archwilio fel y cawsant eu hadnabod yn y Cynllun Archwilio Ariannol heblaw am un addasiad mewn perthynas ag incwm grant (Atodiad 3) ac un sylw rheoli (Atodiad 4).
- Nid oes pryderon am agweddau ansoddol arferion cyfrifo ac adrodd ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, gwnaethpwyd argymhelliad ynglŷn â gwella ansawdd a phrydlondeb peth tystiolaeth archwilio gefnogol (Atodiad 4).
- Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.
- Ni chafodd unrhyw faterion arwyddocaol eu trafod neu lythyru yn eu cylch gyda'r Tîm Rheoli y mae angen eu hadrodd i'r Pwyllgor.
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i amryfusedd yn y broses adrodd ariannol y mae angen eu hadrodd.
- Ni adnabuwyd unrhyw wendidau o bwys o ran rheolaeth fewnol er yr adnabuwyd sawl maes ble gellid gwella rheolaeth fewnol.
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae safonau archwilio'n nodi'n benodol bod rhaid eu cyfleu i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.

4 LLYWODRAETHU GWYBODAETH – ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (UBRG) AM 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor yn amlinellu'r prif faterion llywodraethu gwybodaeth ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill, 2015 hyd at 31 Mawrth, 2016 ynghyd â'r blaenoriaethau presennol er ystyriaeth gan y Pwyllgor.

Adroddodd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) bod disgwyl i'r UBRG gynhyrchu adroddiad blynyddol. Yr adroddiad a gyflwynir yw'r adroddiad cyntaf o'i fath gan yr UBRG yn Ynys Môn a'i bwrpas yw cloriannu'r sefyllfa yn y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o faterion llywodraethu gwybodaeth sydd wedi codi yn y gorffennol yn ogystal â mapio'r camau a gymerwyd hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Swyddog yn benodol at y canlynol:

- Y digwyddiadau diogelwch data yn ystod y cyfnod wedi eu categorio yn ôl eu difrifoldeb. Cyfeirir at nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn Atodiad B ac mae'n cynnwys 6 digwyddiad Lefel 0 i Lefel 1 (defnyddiwyd methodoleg digwyddiad diogelwch data ar gyfer y digwyddiadau a phenderfynwyd nad oedd angen adrodd am 5 o'r digwyddiadau hyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac roedd 1 yn ddigwyddiad "cael a chael"). Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau Lefel 2 (digwyddiadau sy'n rhaid eu hadrodd i'r SCG a rheolyddion eraill).
- Bod y Cyngor yn monitro Dangosyddion Perfformiad penodol sy'n gysylltiedig â Llywodraethu Gwybodaeth, rhai ar sail fisol ac eraill ar sail chwarterol. Gweithredir ar y rhain ar sail eithriad ac fe'u defnyddir i symud materion ymlaen fel bo'r angen i sylw'r UDA.
- Sefydlwyd rolau Llywodraethu Gwybodaeth penodol o fewn y Cyngor sy'n cynnwys Perchnogion Asedau Gwybodaeth a Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth ac mae eu cyfrifoldebau hwy yn cael eu crynhoi ym mharagraff 4 yr adroddiad. Maent wedi derbyn hyfforddiant arbenigol er mwyn ymgymryd â'r gwaith.
- Mae'n rhaid i holl staff y Cyngor dderbyn hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth sylfaenol sy'n cael ei ddiweddarau bob dwy flynedd. Dechreuodd yr hyfforddiant hwn ym mis Mehefin 2014 a dilynwyd proses i sicrhau fod pob aelod o staff yn cymryd rhan. Mae canran cydymffurfiaeth yn agos i 90%.
- Sefydlwyd ystod o bolisiau LIG allweddol (cyfeirir atynt ym mharagraff 5.2 yr adroddiad) ac mae copïau ohonynt i'w cael ar fewnwyd y Cyngor. Mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (BLIGC) yn adolygu a diweddarau'r polisiau hyn yn rheolaidd. Yn dilyn adnabod cyllid mae'r Cyngor erbyn hyn wedi caffael ac yn y broses o weithredu system rheoli polisi fydd yn rhoi sicrwydd i'r BLIGC bod y polisiau LIG allweddol yn cael eu darllen, eu deall a'u derbyn yn ffurfiol gan aelodau staff unigol. Bydd y system rheoli polisi yn cael ei defnyddio'n ehangach, a'r syniad yw y bydd llyfrgell ddigidol o bolisiau cyfredol ar draws pob gwasanaeth corfforaethol ar gael i staff.
- Mae cydymffurfiaeth diogelu data y Cyngor yn ei gyfanrwydd wedi cael ei asesu fel risg canolig gan Archwilio Mewnol. Mae'r UBRG yn anelu at gynhyrchu Datganiad Rheoli yn ystod y 3 mlynedd nesaf yn ddibynnol ar weithredu a phrofi'r camau a ddisgrifir yn yr adroddiad yn llwyddiannus. Y prif ffactor mewn perthynas â gwella lefel risg ganolig y Cyngor yw'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth gan mai hon yw'r adnodd allweddol ar gyfer deall pa wybodaeth a gedwir gan sefydliad a'r risgiau allweddol cysylltiedig. Nid yw Cofrestr y Cyngor wedi datblygu i'r graddau bod gwybodaeth ddigonol am y risgiau i'r asedau yn cael eu casglu ar lefel fanwl. Bydd rhaid gwneud y gwaith o fewn yr adnoddau presennol gan ddilyn dull sy'n seiliedig ar risg.
- Cyfeiria'r adroddiad hefyd at y gwaith sy'n gysylltiedig â Swyddfa'r Comisiynydd Arwylio a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.
- Mae'r UBRG yn gallu dod i'r canlyniad bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer LIG a chydymffurfiaeth diogelu data yn rhesymol effeithiol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor bod llawer iawn o gynnydd wedi digwydd o ran gweithredu gwaith archwiliad SCG a gweithgarwch gorfodi, er bod y gwaith wedi cychwyn o lefel isel iawn.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad, mewn amgylchedd ble mae pwyslais cynyddol ar ddigideiddio gwasanaethau ac ar ryngweithio'n ddigidol, e.e. drwy ddefnyddio Skype i ymgysylltu â chleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth, am y camau sy'n cael eu cymryd i roi mesurau diogelu yn eu lle wrth weithredu arferion newydd o'r fath. Dywedodd yr UBRG y

byddai'r gwasanaethau unigol yn arwain gan dderbyn cyngor gan yr UBRG a TGCHh ac yna ei adrodd drwy'r BLICG.

- Nododd y Pwyllgor er bod llawer wedi ei wneud ar lefel gorfforaethol i fynd i'r afael â gwendidau yn y trefniadau LIG yn yr Awdurdod, mae nifer o achosion o dramgwyddo'n gallu codi oherwydd esgeulustod ac arfer gwael. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod yr un lefel o sylw yn cael ei roi i sicrhau fod y pethau sylfaenol yn eu lle e.e. bod mecanwaith ar gyfer gwirio a sicrhau cywirdeb e-byst/cyfeiriadau a gwybodaeth a gedwir ar gronfeydd data. Dywedodd yr UBRG bod SCG yn cydnabod bod gwallau dynol yn bosib ac nad oes modd cael gwared â hynny'n gyfan gwbl; y disgwyl felly yw bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol yn hytrach na pheidio â chael yr un achos o dramgwyddo data ac i ddysgu o unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd. Er nad oes yr un system all ddileu'r holl risgiau, y nod ddylai fod i reoli'r risgiau a'i lleihau i'r lefel isaf bosib ac i lefel y gall yr Awdurdod ei goddef ar sail weithredol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y Cyngor wedi rhyddhau cyllid i wella prosesau busnes ac y cymeradwywyd dau fid, un i gysylltu systemau'r Awdurdod i'r mynegai eiddo cenedlaethol (rhestr o rifau cyfeirnod eiddo ar gyfer pob cyfeiriad yn y DU) fydd yn arwain at wella cywirdeb, ac un i weithredu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer sydd hefyd yn gwirio gwybodaeth e.e. cyfeiriadau.
- Nododd y Pwyllgor bod amrywiaeth rhwng gwasanaethau yn nhermau llywodraethu gwybodaeth a diogelu data a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y camau a gymerir i sicrhau'r un lefel o fedrusrwydd a chydymffurfiaeth ar draws yr holl wasanaethau. Cadarnhaodd y UBRG bod lefel medrusrwydd a chydymffurfiaeth yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau gyda rhai gwasanaethau'n well am wneud rhai pethau na'i gilydd e.e. oherwydd eu bod yn aml yn gymhleth, mae ymateb i geisiadau am fynediad pwnc yn gallu bod yn broses araf yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ond y consensws yn y cyswllt hwnnw yw bod cywirdeb yn well na chyflymder er mwyn lleihau'r risg bod gwybodaeth sensitif yn cael ei rannu a pherson anawdurdodedig drwy amryfusedd.

Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol yr UBRG ar gyfer 2015/16 ac i nodi y lefelau cydymffurfiaeth a risg y manylir arnynt yn yr adroddiad yn unol â chanfyddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

DIM GWEITHREDU PELLACH I DDILYN.

5 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Awst, 2016 er ystyriaeth gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r holl aseiniadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn; lefel y sicrwydd a ddarparwyd; amserlen archwiliadau dilyn i fyny yr ymgymerydd â hwy ynghyd â rhestr o'r holl argymhellion Archwilio Mewnol sydd angen sylw.

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod lefelau perfformiad yr Adain Archwilio Mewnol ar darged. Amlygodd y Swyddog y ffaith bod y raddfa gweithredu ar gyfer argymhellion graddfa Uchel a Chanolig wedi codi i 83% erbyn hyn.

Nododd y Pwyllgor y diweddariad a gynhwyswyd yn yr adroddiad gan gynnig y sylwadau canlynol:

- Nodwyd a chrosawyd perfformiad yr adain Archwilio Mewnol hyd yma yn erbyn y DP allweddol a gofnodir yn Atodiad A yr adroddiad.
- Nododd y Pwyllgor yr adrannau hynny yn Atodiad D mewn perthynas â rheolaethau allweddol Budd-dal Tai a Diogelu Corfforaethol ble'r barnwyd bod lefel sicrwydd yn gyfyngedig a chodwyd pryder penodol bod y prosesau a dulliau rheoli gwariant mewn perthynas â'r olaf yn cael eu barnu'n annigonol mewn maes sydd â risg arbennig o uchel sy'n ymwneud â gofalu am a diogelu unigolion bregus. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod y Dirprwy Brif Weithredwr (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) wedi cyfarfod â phob Pennaeth Gwasanaeth i symud diogelu corfforaethol yn ei flaen. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sgriwteiddio'r canfyddiadau ymhellach mewn perthynas â diogelu corfforaethol.
- Nododd y Pwyllgor bod materion rheoli sylfaenol penodol, e.e. cwblhau cais am archeb cyn derbyn y nwyddau, yn cael eu hadnabod yn rheolaidd yn sgil canfyddiadau adolygiadau archwilio yn arbennig mewn perthynas ag ysgolion. Er y derbynnir bod rhai arferion yn cymryd amser i sefydlu, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oes angen monitro ehangach o safbwynt

canfyddiadau adolygiadau archwilio mewn perthynas â rhai sefydliadau, e.e. ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ei bod yn anodd sicrhau bod pob sefydliad yn glynu'n gaeth i'r rheolau yn arbennig yng nghyd-destun ysgolion gan fod adnoddau, cymhwysedd a phwysau yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae gan gyrrff llywodraethu rôl allweddol o ran monitro arferion a sicrhau bod penaethiaid yn cael eu gwneud yn atebol am sicrhau cydymffurfiaeth.

- Nododd y Pwyllgor bod argymhelliad yr archwiliad mewnol mewn perthynas â staff asiantaeth yn parhau i fod ar y rhestr o faterion sy'n sefyll a gofynnwyd am sicrwydd bod y drefn a gytunwyd arni ar gyfer cyflogi staff asiantaeth yn cael ei dilyn. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod hyn yn digwydd yn unol â'r argymhelliad a bod angen diweddarau'r system er mwyn adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei weithredu. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y byddai'n codi'r mater gyda'r Prif Weithredwr.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, mewn perthynas â'r meysydd hynny yn Atodiad D ble'r oedd canlyniadau'r adolygiad archwilio yn dangos barn o sicrwydd cyfyngedig neu ble mae cynnydd o ran gweithredu yn ymddangos yn araf, bod gwasanaethau yn derbyn mwy o amser i ymateb i ganfyddiadau archwilio mewnol. Os nad yw'r argymhellion wedi eu gweithredu i lefel dderbyniol ar ddiwedd yr adolygiad dilyn i fyny mewn chwe mis bydd y diffyg cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio sydd â'r gallu i wneud y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn atebol. Mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol canfu'r adolygiad, er bod y sylfeini mewn lle, nid yw amcanion diogelu wedi eu gwreiddio'n gyson ar draws prosesau cynllunio busnes gwasanaethau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd o'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch y prosesau rheolaethau mewnol, rheoli risgiau a llywodraethiant corfforaethol sydd ar waith yn ddarostyngedig i sgrwtineiddio Diogelu Corfforaethol ymhellach.

CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI: Canfyddiadau adolygiad archwilio Diogelu Corfforaethol i'w cyfeirio at y Pwyllgor Sgrwtineiddio Corfforaethol ar gyfer sgrwtineiddio.

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	6 RHAGFYR, 2016
PWNC	CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL YN Y SECTOR CYHOEDDUS (SAMSC)
SWYDDOG ARWEINIOL	PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL - MIKE HALSTEAD
SWYDDOG CYSWLLT	RHEOLWR ARCHWILIO - SIONED PARRY
<p>Natur a rheswm dros adrodd - Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus Sector (SAMSC) 2013, rhaid i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal hunanasesiadau o bryd i'w gilydd i werthuso cydymffurfiaeth â'r <i>Diffiniad o Archwilio, y Côd Moeseg a'r Safonau</i>. Mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio adrodd ar ganlyniadau'r Rhaglen Sicrhau a Gwella Ansawdd (RhSGA) ac unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â SAMSC i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.</p>	

1 RHAGARWEINIAD

- 1.1 Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2013) sy'n nodi bod rhaid i Bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu adolygu Rhestr Wirio Archwilio Mewnol ar gyfer Asesu Cydymffurfiaeth â SAMSC a'r Nodyn Gweithredu ar gyfer Llywodraeth Leol (**Atodiad 1**). Mae'r rhestr wirio wedi ei datblygu i gwrdd â'r gofynion a nodir yn SAMSC 1311 ar gyfer hunanasesiadau cyfnodol fel rhan o'r RhSGA.
- 1.2 Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio'n llwyr â 97% o'r 334 o ofynion unigol. Nododd yr hunanasesiad 5 maes sy'n cydymffurfio'n rhannol a 6 maes nad ydynt yn cydymffurfio o gwbl. Darperir Cynllun Gwella yn **Atodiad 2**, sy'n dangos y meysydd nad ydynt yn cydymffurfio â'r Safonau, yr argymhellion a wnaed i fynd i'r afael â nhw, y camau gweithredu a gynigir gan y Pennaeth Gwasanaeth a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau.

2 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried yr hunanasesiad o ran y meysydd sy'n cydymffurfio'n llawn, yn rhannol neu ddim o gwbl ac i gytuno nad yw'r meysydd sy'n cydymffurfio'n rhannol neu nad ydynt yn cydymffurfio o gwbl yn cael effaith sylweddol ar allu'r Gwasanaeth i ddangos cydymffurfiaeth gyffredinol.
- 2.2 Bod Aelodau yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Cynllun Gwella ar gyfer 2016/17.

3 GWYBODAETH GEFNDIR

- 3.1 Mae'n ofyniad statudol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol weithio yn unol ag arferion archwilio priodol. Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Gweithredu ar gyfer Llywodraeth Leol gan CIPFA i rym ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli'r *Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol* a gyhoeddwyd gan CIPFA yn 2006. Cynhyrchwyd y safonau newydd hyn gan y Pennwyr Safonau Perthnasol ar gyfer Archwilio Mewnol (RIASS), gan gynnwys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac maent yn orfodol ac yn berthnasol i wahanol rannau o'r sector cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys Llywodraeth Leol.

- 3.2 Bwriad y safonau yw hyrwyddo gwelliant pellach o ran proffesiynoldeb, ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau archwilio mewnol ar draws y sector cyhoeddus. Maent yn cadarnhau pwysigrwydd trefniadau archwilio mewnol cadarn, annibynnol a gwrthrychol i roi'r sicrwydd allweddol y mae uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei angen i'w helpu i reoli'r sefydliad ac i gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 3.3 Mae RIASS wedi datblygu rhestr wirio i fodloni'r gofynion a nodir yn SAMSC 1311 a 1312 ar gyfer hunanasesiadau cyfnodol a hunanasesiadau a ddilysir yn allanol fel rhan o'r Rhaglen Sicrhau a Gwella Ansawdd. Mae'n ymgorffori gofynion SAMSC yn ogystal â'r Nodyn Gweithredu er mwyn rhoi sylw cynhwysfawr i'r ddwy ddogfen. Rhaid ticio pob gofyniad i ddangos cydymffurfiaeth lawn neu rannol gyda'r Safon neu ddiffyg cydymffurfiaeth. Rhaid darparu tystiolaeth ar gyfer pob ymateb, yn ogystal â rhesymau dros unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth neu gydymffurfiaeth rannol, ynghyd ag unrhyw fesurau a sefydlwyd neu gamau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r fath faterion.
- 3.4 Cwblhawyd y rhestr wirio o arferion gorau i ddarparu asesiad blynyddol ar gyfer 2016/17. Gellir ei gweld yn **Atodiad 1** ac mae'n dangos bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â **97%** o'r **334** o ofynion unigol. Mae canlyniadau'r rhestr wirio wedi eu crynhoi yn y tabl isod:
- 3.5 Mae **Tabl 1** isod yn crynhoi gweithrediad yr argymhellion fel yr oeddynt ar 31 Awst 2016:

Tabl 1 – Cydymffurfiaeth â'r Safonau yn 2016/17

Cydymffurfiaeth â'r Safonau yn 2016/17			
	Ydi	Rhannol	Nac ydi
1. Diffiniad o Archwilio Mewnol	3	0	0
2. Côt Moeseg	13	0	0
3. Safonau Priodoleddau			
1000 Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb	21	0	0
1100 Annibyniaeth a Gwrthrychedd	29	0	2
1200 Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyledus	21	0	0
1300 Rhaglen Sicrhau a Gwella Ansawdd	25	0	2
4. Safonau Perfformiad			
2000 Rheoli'r Gweithgarwch Archwilio Mewnol	41	4	1
2100 Natur y Gwaith	31	0	0
2200 Cynllunio Ymgysylltiad	57	1	0
2300 Perfformio'r Ymgysylltiad	22	0	0
2400 Cyfathrebu Canlyniadau	54	0	1
2500 Monitro Cynnydd	4	0	0
2600 Cyfathrebu Dderbyn Risgiau	2	0	0
Cyfanswm	323	5	6
Canran	97%	1%	2%

- 3.5 Mae'r **6** maes nad ydynt yn cydymffurfio yn ymwneud â'r canlynol:

- **Safon 1100** *Annibyniaeth a Gwrthrychedd*: Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Siarter Archwilio Mewnol ddiffinio natur gwasanaethau ymgynghori. Dywed Para. 3.3 y Siarter - "*Internal Audit may undertake consulting services at the request of the organisation, subject to there being no impact on the core assurance work*". Nid yw'n ymhelaethu nac yn diffinio natur y gwasanaethau ymgynghori.

Mae'r safonau hefyd yn dweud bod raid i'r Siarter gydnabod natur orfodol SAMSC. Mae'r Siarter yn nodi bod y Cyngor wedi mabwysiadu SAMSC ond nid yw'n ymhelaethu ar natur orfodol SAMSC.

Bydd y Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu gofynion SAMSC ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w gymeradwyo ar 9 Chwefror 2017 (**Atodiad 2 – Argymhellion 1 a 2**).

- **Safon 1320** *Adrodd ar y Rhaglen Sicrhau a Gwella Ansawdd*: Mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Archwilio (PSA) gynnwys canlyniadau'r RhSGA a'r cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi sicrwydd bod gwaith y Gwasanaeth wedi ei wneud mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Safonau ond nid yw'n cynnwys manylion am unrhyw ddiffyg cydymffurfio neu unrhyw gynnydd yn erbyn cynlluniau gwella.

Mae hefyd yn ofynnol i adrodd o leiaf bob blwyddyn i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am yr Hunanasesiad RhSGA a'r cynllun gwella sy'n deillio ohono. Nid yw hyn wedi bod yn cael ei wneud hyd yma. Trefnwyd i adrodd ar yr Hunanasesiad RhSGA ar gyfer 2016/17 a'r cynllun gwella i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 28 Tachwedd 2016 ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2016. Cynhwysir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2016/17 (**Atodiad 2 – Argymhellion 3 a 4**).

- **Safon 2050** *Cydlyn*: Mae'n ofynnol i'r PSA gynnal ymarfer mapio sicrwydd fel rhan o nodi a phenderfynu'r dull o ddefnyddio ffynonellau sicrwydd eraill. Cynhelir ymarfer mapio sicrwydd fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer 2017/18 i sicrhau bod y cynllun Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar y ffynonellau sicrwydd cywir i gwrdd ag anghenion ac amgylchiadau'r Awdurdod. (**Atodiad 2 – Argymhelliad 8**).

- **Safonau 2450** *Barn gyffredinol*: Mae'r Safon hon yn nodi bod raid i'r adroddiad blynyddol gynnwys canlyniadau'r RhSGA a'r cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r RhSGA. Bydd yr Hunanasesiad RhSGA am 2016/17 a'r cynllun gwella yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2016/17 ac adroddir arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym Mai 2017 (**Atodiad 2 - Argymhelliad 11**).

3.6 Yn ogystal, mae 5 maes yr aseswyd eu bod yn **cydymffurfio'n rhannol**:

- **Safon 2010** *Cynllunio*: Rhaid i gynllun risg y Gwasanaeth gymryd i ystyriaeth fframwaith sicrwydd y sefydliad. Cynhelir ymarfer mapio sicrwydd fel rhan o broses gynllunio 2017/18 i sicrhau ymhellach bod y Cynllun Archwilio yn canolbwyntio ar y ffynonellau cywir o sicrwydd i gwrdd ag anghenion ac amgylchiadau'r Awdurdod (**Atodiad 2 – Argymhelliad 5**).

- **Safon 2040 Polisiau a Gweithdrefnau:** Dylai'r PSA ddatblygu a sefydlu polisiau a gweithdrefnau i lywio'r gweithgarwch archwilio mewnol. Mae'r Llawlyfr Archwilio Mewnol yn cynnwys canllawiau ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch archwilio mewnol, ond mae'n dyddio'n ôl i gyfnod pan oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan ymgynghorwyr allanol, sef Baker Tilly. Mae angen diweddarau'r Llawlyfr i adlewyrchu arferion cyfredol (**Atodiad 2 - Argymhelliad 6**).

Dylid adolygu a diweddarau'r polisiau a'r gweithdrefnau yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn arferion a safonau gwaith (**Atodiad 2 – Argymhelliad 7**).

- **Safon 2050 Cydlynu:** Mae'n ofynnol i'r PSA gyfarfod yn rheolaidd gyda chynrychiolydd y gwasanaeth archwilio allanol enwebedig i gydlynu ac ymgynghori ar eu cynlluniau archwilio perthnasol. Gwahoddir cynrychiolydd yr Archwiliwr Allanol i fynyachu cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rhag-gyfarfodydd. Mae'r PSA yn ceisio cael mwy o ran mewn cyfarfodydd gyda Swyddfa Archwilio Cymru (**Atodiad 2 - Argymhelliad 9**).

- **Safonau 2200 Cynllunio Gwaith:** Dylai'r cynllun ar gyfer pob gwaith archwilio gynnwys nifer y dyddiau a neilltuwyd ar gyfer gwaith o'r fath. Mae Taflen Cynllunio Aseiniadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar hyn o bryd yn nodi'r archwilwyr a aseiniwyd. Fodd bynnag, nid yw'n nodi nifer y dyddiau archwilio a neilltuwyd ar gyfer y gwaith. Adolygir y Daflen hon i gynnwys y dyddiau archwilio a neilltuwyd a bydd yn dod i rym ar unwaith (**Atodiad 2 – Argymhelliad 10**).

3.7 Dylid nodi hefyd bod y Gwasanaeth ar hyn o bryd yn cydymffurfio â'r Safonau canlynol: **1100 Annibyniaeth a Gwrthrychedd**, **1110 Annibyniaeth Sefydliadol** a **1130 Amhariad ar Annibyniaeth neu Wrthrychedd**. Nid oes gan y PSA unrhyw gyfrifoldebau gweithredol heblaw am Archwilio Mewnol. Mae swydd Pennaeth Archwilio a Risg wedi cael ei hysbysebu'n ddiweddar ac mae bellach yn cynnwys cyfrifoldebau am faterion yswiriant a risg. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r Safonau ac yn y dyfodol bydd angen i'r PSA ddatgan gwrthdaro diddordeb a diffyg cydymffurfiaeth â **Safon 1100 Annibyniaeth a Gwrthrychedd** i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

3.8 Mae'r Safonau (**1130.A2**) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhywun y tu allan i'r gweithgaredd archwilio mewnol yn goruchwyllo unrhyw waith sicrwydd mewn meysydd y mae gan y PSA gyfrifoldeb gweithredol amdanynt.

4. CASGLIAD

4.1 Yn unol â'r Safonau, mae Cynllun Gwella wedi ei gynnwys yn **Atodiad 2**, sy'n dangos y meysydd nad ydynt yn cydymffurfio â'r Safonau, yr argymhellion a wnaed i fynd i'r afael â'r materion, y camau gweithredu arfaethedig gan y PSA a'r amserlen. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig yn Adroddiad Blynyddol 2016/17.

4.2 Yn unol â'r Safonau rhaid cynnal asesiad allanol o leiaf bob pum mlynedd gan 'aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad.' Cytunodd Prif Grŵp Archwilwyr Mewnol Cymru ar hunanasesu gyda dilysu allanol annibynnol ac mae wedi sefydlu sgôp yr asesiad a'r cylch gorchwyl. Mae'r Asesiad Cymheiriaid ar gyfer Gwasanaethau Archwilio Mewnol Ynys Môn wedi ei raglennu i'w gynnal yn gynnar yn

2017 gan Bennaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Sir Ddinbych. Adroddir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Mai 2017 ar ganlyniadau gwerthusiad yr aseswr o lefelau cydymffurfiaeth CSYM gyda SAMSC.

Checklist for Assessing Conformance with the PSIAS and the Local Government Application Note

This checklist has been developed to satisfy the requirements set out in PSIAS 1311 and 1312 for periodic self-assessments and externally validated self-assessments as part of the Quality Assurance and Improvement Programme. It incorporates the requirements of the PSIAS as well as the Application Note in order to give comprehensive coverage of both documents.

Please tick to indicate Y = YES, P = PARTIAL, N = NO. Evidence for each response must be provided and reasons for any partial or full non-conformance should be given, together with any compensating measures in place or actions in progress to address this.

Tudalen 14

Ref	Conformance with the Standard	Y	P	N	Evidence
1	Definition of Internal Auditing				
	Using evidence gained from assessing conformance with other Standards, is the internal audit activity: a) Independent?	✓			<p>Internal Audit (IA) Annual Report 2015/16 – Para. 6.6</p> <p>IA Charter – Para. 6 Independence</p> <p>Para. 4.4 – The (Chief Audit Executive) CAE is also free to report directly to any member of the Senior Leadership Team or Heads of Service including the Chief Executive and the Monitoring Officer.</p> <p>IA Manual – Declaration of Personal Interests & Auditor independence – All auditors are required to declare any Personal / Business Interests and make an</p>

Ref	Conformance with the Standard	Y	P	N	Evidence
	b) Objective?	✓			<p>annual declaration of Independence and Confidentiality.</p> <p>Internal Auditors appointed from within the Council are not permitted to perform an audit, which is any way related to their previous post for at least 1 year after appointment.</p> <p>As above.</p>
	Using evidence gained from assessing conformance with other Standards, does the internal audit activity use a systematic and disciplined approach to evaluate and improve the effectiveness of risk management, control and governance processes within the organisation?	✓			<p>IA Annual Report 2015/16 – Para. 6.6</p> <p>The IA Protocol and Manual ensures a systematic and disciplined approach – Internal Audit Strategy 2016/17 Internal Audit Strategic Plan 2016/19 Internal Audit Charter – Para. 5 Internal Audit (IA) Annual Report 2015/16</p>
2	Code of Ethics				
	<p>Integrity</p> <p>Using evidence gained from assessing conformance with other Standards, do internal auditors:</p> <p>a) Perform their work with honesty, diligence and responsibility?</p>	✓			<p>IA Annual Report 2015/16 – Para. 6.6</p> <p>IA Manual - Legal Requirements & Professional Standards</p> <p>All Internal Audit Staff members have signed a Declaration that they have read the PSIAS and that they understand that they must comply with the Standards and its Code of Ethics.</p>

Ref	Conformance with the Standard	Y	P	N	Evidence
					<p><u>G:\ Audit\Shared\001 IA Audit Manual Resource\Current Versions\Code of Ethics - PSIAS</u></p> <p>IA Manual - Declaration of Personal Interests & Auditor Independence - All auditors are required to declare any Personal / Business Interests and make an annual declaration of Independence and Confidentiality.</p> <p>Qualified staff and staff undergoing professional training are bound by respective Code of Ethics and their professional body.</p>
	b) Observe the law and make disclosures expected by the law and the profession?	✓			See above.
	c) Not knowingly partake in any illegal activity nor engage in in acts that are discreditable to the profession of internal auditing or to the organisation?	✓			See above.
	d) Respect and contribute to the legitimate and ethical objectives of the organisation?	✓			See above.
	<p>Objectivity</p> <p>Using evidence gained from assessing conformance with other Standards, do internal auditors display objectivity by not:</p> <p>a) Taking part in any activity or relationship that may impair or be presumed to impair their unbiased assessment?</p>	✓			<p>IA Annual Report 2015/16 – Para. 6.6</p> <p>IA Manual - Legal Requirements & Professional Standards IA Manual – Declaration of Personal Interests & Auditor Independence - All auditors are required to declare any Personal / Business Interests and make an annual dec-</p>

Ref	Conformance with the Standard	Y	P	N	Evidence
					laration of Independence and Confidentiality. Declarations of Personal / Business Interests Declarations of Auditor Independence & Confidentiality
	b) Accepting anything that may impair or be presumed to impair their professional judgment?	✓			IoAC Constitution 5.2 Officers' Code of Conduct - Para. 5.2.8.2 http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-5-codes-and-protocols/constitution-52-officers-code-of-conduct
	c) Disclosing all material facts known to them that, if not disclosed, may distort the reporting of activities under review?	✓			As above.
	Confidentiality Using evidence gained from assessing conformance with other Standards, do internal auditors display objectivity by:				IA Annual Report 2015/16 – Para. 6.6 IA Manual - Legal Requirements & Professional Standards IA Manual - Declaration of Personal Interests & Auditor Independence - All auditors are required to declare any Personal / Business Interests and make an annual declaration of Independence and Confidentiality. Declarations of Personal / Business Interests Declarations of Auditor Independence & Confidentiality
	a) Acting prudently when using information acquired in the course of their duties and protecting that information?	✓			
	b) Not using information for any personal gain or in any manner that would be contrary to the law or detrimental to the legitimate and ethical objectives of the organisation?	✓			As above.
	Competency				

Ref	Conformance with the Standard	Y	P	N	Evidence
	Using evidence gained from assessing conformance with other Standards, do internal auditors display objectivity by: a) Only carrying out services for which they have the necessary knowledge, skills and experience?	✓			The Audit Manager allocates work on a monthly basis, based on the knowledge, skills and experience of individual auditors. IA Protocol - Para. 1 – Audit Planning IA Charter – Para. 9 – Audit Resources IA Annual Report 2015/16 – Para. 6.6
	b) Performing services in accordance with the PSIAS?	✓			IA Manual - Legal Requirements & Professional Standards All Internal Audit Staff members have signed a Declaration that they have read the PSIAS and that they understand that they must comply with the Standards and its Code of Ethics.
	c) Continually improving their proficiency and effectiveness and quality of their services, for example through CPD schemes?	✓			IA Charter – Para. 10 – Audit Training
	Do internal auditors have regard to the on Standards of Public Life's <i>Seven Principles of Public Life</i> ?	✓			IA Manual - Legal Requirements & Professional Standards Audit staff have made a declaration agreeing to abide the Code of Ethics, including the Seven Principles of Public Life
	Standards				

Ref	Conformance with the Standard	Y	P	N	Evidence
3	Attribute Standards				
3.1	1000 Purpose, Authority and Responsibility				
	<p>Does the internal audit charter include a formal definition of:</p> <p>a) the purpose</p> <p>b) the authority, and</p> <p>c) the responsibility</p> <p>of the internal audit activity consistent with the Public Sector Internal Audit Standards (PSIAS)?</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>			<p>IA Charter – Approved by Audit & Governance Committee 27 April 2015.</p> <p>IA Charter - Para. 5</p> <p>IA Charter - Para. 6.3</p> <p>IA Charter - Para. 4</p>
LGAN	<p>Does the internal audit charter define the terms ‘board’ and ‘senior management’, for the purposes of the internal audit activity?</p> <p><i>Note that it is expected that the audit committee will fulfil the role of the board in the majority of instances.</i></p>	<p>✓</p>			<p>IA Charter - Para. 4.2 – ‘Board’ and ‘Audit Committee’ & Para. 4.4 - ‘Senior Management’</p> <p>IoAC has delegated to its Audit & Governance Committee in its Terms of Reference responsibility for: “ensuring that the authority has a sound system of internal control which facilitates the effective exercise of functions and which includes arrangements for the management of risk and adequate and effective financial management.”</p> <p>Audit & Governance Committee Terms of Reference – approved by Council 14 May 2015.</p>
	<p>Does the internal audit charter also:</p> <p>a) Set out the internal audit activity’s position within the organisation?</p>	<p>✓</p>			<p>IA Charter</p> <p>Para. 1.1 – Introduction – outlines the statutory basis for Internal Audit.</p>

Ref	Conformance with the Standard	Y	P	N	Evidence
	b) Establish the CAE's functional reporting relationship with the board?	✓			Para.11 – Audit Reporting
LGAN	c) Establish the accountability, reporting line and relationship between the CAE and those to whom the CAE may report administratively?	✓			Para. 4.4 – 'Senior Management'
LGAN	d) Establish the responsibility of the board and also the role of the statutory officers (such as the CFO, the monitoring officer and the head of paid service) with regards to internal audit?	✓			Para. 4.2 'Board' and Audit Committee' & 4.4 'Senior Management'.
	e) Establish internal audit's right of access to all records, assets, personnel and premises and its authority to obtain such information and explanations as it considers necessary to fulfil its responsibilities?	✓			Para. 6.3 – Independence Council's Constitution 4.8.5.3.2
LGAN	f) Define the scope of internal audit activities?	✓			Para. 5.1 – Purpose of Internal Audit
Economic forecasting remains difficult with so many external influences weighing on the UK. Our Bank Rate forecasts, (and also MPC decisions), will be liable to further amendment depending on how economic data and developments in financial markets transpire over the next year. Forecasts for average earnings beyond the three year time horizon will be heavily dependent on economic and political developments. Major volatility in bond yields is likely to endure as investor fears and confidence ebb and flow between favouring more risky assets i.e. equities, or the safe haven of bonds.

The overall longer run trend is for gilt yields and PWLB rates to rise, albeit gently. An eventual world economic recovery may also see investors switching from the safe haven of bonds to equities.

We have pointed out consistently that the Fed. Rate is likely to go up more quickly and more strongly than Bank Rate in the UK and recent events have not changed that view, just that the timing of such increases may well have been deferred somewhat during 2016. While there is normally a high degree of correlation between the two yields, we would expect to see a growing decoupling of yields between the two i.e. we would expect US yields to go up faster than UK yields. We will need to monitor this area closely and the resulting effect on PWLB rates.

The overall balance of risks to economic recovery in the UK remains to the downside, particularly with the current uncertainty over the final terms of Brexit.

We would, as always, remind clients of the view that we have expressed in our previous interest rate revision newflashes of just how unpredictable PWLB rates and bond yields are at present. We are experiencing exceptional levels of volatility which are highly correlated to geo-political and sovereign debt crisis developments. Our revised forecasts are based on the Certainty Rate (minus 20 bps) which has been accessible to most authorities since 1st November 2012.

Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:-

- Geopolitical risks in Europe, the Middle East and Asia, which could lead to increasing safe haven flows.
- UK economic growth and increases in inflation are weaker than we currently anticipate.
- Weak growth or recession in the UK's main trading partners - the EU and US.
- A resurgence of the Eurozone sovereign debt crisis.
- Weak capitalisation of some European banks.
- Monetary policy action failing to stimulate sustainable growth and combat the threat of deflation in western economies, especially the Eurozone and Japan.

The potential for upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates, especially for longer term PWLB rates include: -

- The pace and timing of increases in the Fed. funds rate causing a fundamental reassessment by investors of the relative risks of holding bonds as opposed to equities and leading to a major flight from bonds to equities.
- UK inflation returning to significantly higher levels than in the wider EU and US, causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

Borrowing advice: although yields have risen from their low points, yields are still at historic lows and borrowing should be considered if appropriate to your strategy. We still see value in the 40yr to 50yr range at present but that view would be negated if Bank Rate does not climb to at least 2.5% over the coming years. Accordingly, clients will need to review and assess their risk appetite in terms of any underlying borrowing requirement they may have, and also project forward their position in respect of cash backed resources.

Any new borrowing should also take into account the continuing cost of carry, the difference between investment earnings and borrowing rates, especially as our forecasts indicate that Bank Rate may not rise from 0.25% until June 2019 and then will only rise slowly.

As there are so many variables at this time, caution must be exercised in respect of all interest rate forecasts. The general expectation for an eventual trend of gently rising gilt yields and PWLB rates is expected to remain unchanged. Negative, (or positive), developments could significantly impact safe-haven flows of investor money into UK, US and German bonds and produce shorter term movements away from our central forecasts.

Our interest rate forecast for Bank Rate is in steps of 25 bps whereas PWLB forecasts have been rounded to the nearest 10 bps and are central forecasts within bands of + / - 25 bps.

Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Capita Asset services

Crynodeb Benthycyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2016/17
Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2016/17

	30 Medi / Sept 2016		30 Mehefin / June 2016	
	£m	% (a dalwyd ar fenthycyca a dderbyniwyd ar fuddsoddiad)	£m	% (a dalwyd ar fenthycyca a dderbyniwyd ar fuddsoddiad)
Benthycyca – graddfa sefydlog Borrowing – fixed rate	110.7	5.42	110.7	5.42
Benthycyca – graddfa amrywiol Borrowing – variable rate	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod Deposits – Call to 30 days	9.6	0.14	14.8	0.39
Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl. Deposits – Fixed Term < 1 year	5.0	0.28	5.0	0.51
Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. + Deposits – Fixed Term 1 year +	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Cyfanswm Adneuon Total Deposits	14.6	0.18	19.8	0.42
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Highest Deposits in the Quarter	24.8	d/b / n/a	29.7	d/b / n/a
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Lowest Deposits in the Quarter	14.6	d/b / n/a	16.4	d/b / n/a
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Average Deposits in the Quarter	22.4	0.35	23.3	0.39

Ni dorwyd unrhyw un o'r dangosyddion trysorlys yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.
 None of the treasury indicators were breached during the first half of the year.

Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuron a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2016*
Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2016*

Grŵp Bancio/ Banking Group	Sefydliad/ Institution	Adneuron / Deposit £'000	Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**)	Cyfnod (O/I)/ Period (From / To)	Graddfa Dychweliad/ Rate of Return %	Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating	Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration
Tudalen 144	Lloyds Banking Group plc	2,097	Galw/ Call	n/a	0.15	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Coch - 6 mis/ Red - 6 months
	HSBC Holdings plc	0	Galw/ Call	n/a	0.01	AA-	F1+	Aa2	P-1	AA-	A-1+	Oren – 12 mis / Orange – 12 months
	Santander Group plc	6,527	Galw/ Call	n/a	0.15	A	F1	Aa3	P-1	A	A-1	Coch – 6 mis/ Red - 6 months
	The Royal Bank of Scotland Group plc	1	Galw/ Call	n/a	0.10	BBB+	F2	A3	P-2	BBB+	A-2	Glas - 12 mis / Blue - 12 months
	National Westminster Bank Ltd	1,025	Galw/Call	n/a	0.01	BBB+	F2	A3	P-2	BBB+	A-2	Glas – 12 mis/ Blue – 12 months
	Nationwide Building Society	5,000	Fixed Term	16/08/2016 – 16/11/2016	0.28	A	F1	Aa3	P-1	A	A-1	Coch – 6 mis/ Red - 6 months

* Ceir y Rhestr Benthycu Cymeradwyedig yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17/Strategaeth Buddsoddi Blynyddol/ The Approved Lending List can be found at Appendix 6 of the 2016/17 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy ** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

Approved countries for investments

Based upon lowest available sovereign credit rating

AAA

- Australia
- Canada
- Denmark
- Germany
- Luxembourg
- Netherlands
- Norway
- Singapore
- Sweden
- Switzerland

AA+

- Finland
- Hong Kong
- U.S.A.

AA

- Abu Dhabi (UAE)
- France
- Qatar
- U.K.

AA-

- Belgium

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	06 RHAGFYR, 2016
PWNC:	ARFERION RHEOLI TRYSORLYS (TMP)
SWYDDOG ARWEINIOL:	MARC JONES
SWYDDOG CYSWLLT:	CLAIRE KLIMASZEWSKI (FFÔN: 1865)
Natur a rheswm am adrodd	
Ar gyfer sgrwtini - yn gyson â chanllawiau proffesiynol.	

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arfer orau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymhell bod y Cyngor yn dogfennu eu gweithdrefnau rheolaeth trysorlys fel Arferion Rheoli'r Trysorlys (TMPs)
2. Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (Adran 7) yn argymhell y dylai Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod (TMPs) gael eu cymeradwyo, eu dogfennu a'u monitro. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod natur a lefel cyfranogiad corff cyfrifol sefydliad wrth gymeradwyo a monitro ei TMP ac atodlenni cysylltiedig yn fater i'w benderfynu'n lleol ac yn cydnabod y bydd hyn mewn rhai sefydliadau efallai'n cael ei ddirprwyo i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgrwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Cyflwynir TMP yr Awdurdod yn Atodiad 1.
3. **Argymhellion:**
 - Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol hwn;
 - Cymeradwyo'r Arferion Rheoli'r Trysorlys sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

Cyngor Sir Ynys Môn

Arferion Rheoli Trysorlys

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithredu arferion gorau ac i gydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys (2011) ym mhob agwedd ar ei waith Rheoli Trysorlys.

Rheoli Trysorlys yw'r modd y caiff llif arian a buddsoddiadau'r Cyngor ei reoli er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu biliau'r Cyngor o ddydd i ddydd. Caiff unrhyw arian sydd dros ben ei fuddsoddi'n unol â Datganiad yr Awdurdod ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS).

Agwedd arall bwysig o Reoli Trysorlys yw rheolaeth o bortffolio dyledion y Cyngor er mwyn sicrhau nad yw benthyciadau ond yn cael eu codi l gyllido gwariant cyfalaf a bod yr holl fenthyciadau'n fforddiadwy. Amcanion allweddol y TMSS yw bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn risg isel ac yn sicrhau bod gan yr awdurdod yr arian l gwrdd â'i anghenion llif arian.

Mae'r Côt yn datgan ei bod yn ofynnol i bob awdurdod gynhyrchu datganiad o Arferion Rheoli Trysorlys (TMPs). Mae Adran 7 ac atodlen 2 o'r côd yn cynnwys awgrymiadau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn Arferion Rheoli Trysorlys awdurdodau. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod ac arferion da, mae'r Arferion Rheoli Trysorlys hyn yn ategu ac yn cynnwys llawer o'r awgrymiadau sydd wedi eu cynnwys yng Nghôd CIPFA. Mae'r Arferion Rheoli Trysorlys hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth ac yn ategu'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod.

TMP1 Rheoli Risg

Bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn dylunio, yn gweithredu ac yn monitro'r holl drefniadau ar gyfer nodi, rheoli a rheoli risg mewn perthynas â rheoli trysorlys. Bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar ddigonolrwydd / addasrwydd arferion rheoli risg trysorlys, a bydd yn adrodd, fel mater o frys, unrhyw anhawster gwirioneddol neu debygol o ran cyflawni amcanion y sefydliad yn y cyswllt hwn, a hynny'n unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Adrodd Gofynion TMP6 a Threfniadau Rheoli Gwybodaeth. Mewn perthynas â phob un o'r risgiau canlynol, mae'r trefniadau a sefydlwyd er mwyn ceisio sicrhau cydymffurfiaid â'r amcanion hyn wedi'u nodi isod.

1.1 Rheoli Risg Credyd a Gwrthbarti

Mae rheoli risg credyd a gwrthbartion yn ymwneud â lleihau'r risgiau i'r cyngor rhag colli arian buddsoddi neu dorri trefniant benthyca gan gymryd i ystyriaeth unrhyw leihad yn nheilyngdod credyd y gwrthbartion. I'r Cyngor, diogelwch ei adneuo a'i fuddsoddiadau yw amcan allweddol ei TMSS. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y sefydliadau y gellir adneuo arian neu fuddsoddi gyda hwy yn cael eu dewis ar sail ddarbodus h.y. gyda gofal a chan godi mewn cof ddiogelwch y buddsoddiad yn hytrach na chyfradd y dychweliadau. Mae'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhestru'r meini prawf sylfaenol y mae'n rhaid i sefydliad eu bodloni ar gyfer adneuo buddsoddiadau. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau o ran arian parod; cyfyngiadau amser a rhestr o'r gwledydd a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi ynddynt. Mae'r rhain yn darparu rheolaethau ychwanegol, er mwyn lleihau'r risgiau (gweler Tabl 1).

Tabl 1 Detholiad o TMSS 2017/18 - Meini Prawf Gwrthbarti

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu sydd wedi eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	Aaa	AAA	£10m	5 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu Gwladoli / wedi eu Gwladoli'n Rhannol	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Gyfunol (waeth beth fo'r raddfa credyd)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Dim uchafswm	Dim uchafswm
Awdurdodau Lleol y Deyrnas Gyfunol **	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£5m	364 diwrnod
Cronfeydd y Farchnad Ariannol	d/b	d/b	d/b	AAA	AAA	AAA	£5m	6 mis

* fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid a Chyfrifo Cyfalaf) (Cymru) 2003

** fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003

*** Mae gwrthbarti'n cyfeirio at sefydliadau y mae'r Cyngor yn buddsoddi ei falansau ynddynt

<p>Meini prawf ar gyfer creu a rheoli rhestrau gwrthbarti/ trothwyon a gymeradwywyd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / S151 yn gyfrifol am osod meini prawf darbodus; gyda chyngor gan ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor; • Bydd y meini prawf yn cael eu cynnwys yn y Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS); • Bydd y meini prawf yn cael eu sgrwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn; • Bydd ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cynghori ar bolisi credyd a theilyngdod credyd.
<p>Gweithdrefnau ar gyfer newid trothwyon a newidiadau i wrthbartion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr holl newidiadau mewn perthynas â throthwyon gwrthbartion a / neu feini prawf o fewn y TMSS yn cael eu sgrwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac wedyn i'r Cyngor i'w cymeradwyo.
<p>Rhestrau gwrthbartion a Trothwyon</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gwrthbartion a chyflwr y farchnad yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cael gwybodaeth a chyngor gan Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys arbenigol y Cyngor i helpu i fonitro gwrthbartion; • Cedwir rhestrau llawn o'r gwrthbartion unigol a'u trothwyon. Bydd y rhain yn cydymffurfio gyda'r meini prawf a'r trothwyon a nodir yn y TMSS. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r rhestr o wrthbartion i'r graddau y maent yn gyson â'r TMSS a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn. Bydd angen diwygio'r TMSS os nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r rhain ac os yw'r newid yn angenrheidiol i gyflawni nodau allweddol y TMSS, h.y. i sicrhau buddsoddiadau diogel. Yna, bydd y TMSS, yn cynnwys y meini prawf gwrthbartion diwygiedig, yn mynd gerbron y Cyngor Llawn i'w cymeradwyo ar ôl cael ei sgrwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'i ystyried gan y Pwyllgor Gwaith; • Bydd unrhyw fuddsoddiad mewn unrhyw wrthbarti nad yw'n cydymffurfio gyda'r meini prawf gofynnol sylfaenol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn cael ei alw'n ôl a'i fuddsoddi mewn gwrthbartion sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ac sydd ar y rhestr. Lle mae'r Cyngor wedi cael ei ymrwymo i drefniant tymor penodol, bydd yn rhaid cadw'r buddsoddiad yno tan ddiwedd y cyfnod hwnnw, ond yna bydd yn cael ei ddychwelyd a'i fuddsoddi mewn gwrthbartion sy'n bodloni'r meini prawf ac sydd ar y rhestr;

- Bydd y buddsoddiadau'n cael eu harallgyfeirio i'r graddau y mae hynny'n bosib o fewn y cyfyngiadau o sicrhau bod y buddsoddiad yn ddiogel.

1.2 Rheoli Risg Hylifedd

Amcan rheoli risg hylifedd yw gwarchod y Cyngor rhag rhedeg allan o arian parod er mwyn sicrhau y gall y dalu ei gostau o ddydd i ddydd. Bydd y Cyngor hwn yn sicrhau bod ganddo ddigon - ond nid gormod - o adnoddau ariannol, trefniadau benthycu, gorddrafft neu gyfleusterau wrth gefn fel bod ganddo bob amser y lefel angenrheidiol o arian ar gyfer cyflawni ei amcanion busnes / gwasanaeth. Ni fydd y Cyngor ond yn benthycu ymlaen llaw lle mae achos busnes clir dros wneud hynny a bydd ond yn gwneud hynny ar gyfer y rhaglen gyfalaf bresennol neu i gyllido dyledion a fydd yn aeddfedu yn y dyfodol (gweler rhan 3.4 o Ddatganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18 am wybodaeth ychwanegol). Yn ogystal, mae'n bosib y bydd y sefydliad yn benthycu er mwyn allanoli benthyciadau mewnol lle mae benthycu mewnol yn cael effaith andwyol ar hylifedd y sefydliad.

<p>Rhagolygon llif arian a rheoli llif arian o ddydd i ddydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir rhagolwg blynyddol o falansau llif arian sy'n cwmpasu cyfnod o ddeuddeng mis. Mae hyn er mwyn helpu i siapio penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y tymor canol a'r tymor hir; • Bydd y tîm Rheoli Trysorlys yn sicrhau bod y balans ar y prif gyfrifon banc yn ddigonol i leihau'r risg o unrhyw orddrafft ac i sicrhau cymaint o log ag sy'n bosibl; • Mae'r trefniadau bancio wedi'u gweithredu fel bod yr holl gyfrifon banc o dan y contract corfforaethol gyda Natwest yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar falans y Cyngor. Felly, os bydd gormod o arian wedi cael ei godi o unrhyw gyfrif a hynny'n creu dyled, bydd y swm cyfatebol yn cael ei gymryd o gyfrifon eraill sydd mewn credyd gan olygu na fydd y cyngor â gorddrafft. Nid oes cyfleuster gorddrafft wedi ei gymeradwyo, fodd bynnag, bydd Natwest, am dâl bychan, yn anrhydeddu'r holl daliadau petai'r cyngor yn mynd i orddrafft (annhebygol); • Bydd isafswm o £5m yn cael ei gadw mewn buddsoddiadau y gellir cael atynt yn syth. Mae hyn yn cydymffurfio gyda'r lefel isafswm o £5m yng ngronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor.
<p>Cyfnod y buddsoddiadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gyffredinol, mae balansau'n cael eu cadw mewn buddsoddiadau tymor byr yn unol ag amcanion hylifedd a risg isel y TMSS. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor fynediad i arian parod yn ôl yr angen; • Bydd Balansau yn cael eu trosglwyddo o'r cyfrif cyffredinol i fuddsoddiadau tymor byr pan fydd y llog / incwm yn fwy na chost trosglwyddo'r balans gan gymryd i ystyriaeth gostau'r trafodyn, e.e. ffioedd CHAPS. Fel rheol gyffredinol, bydd balans a fydd o leiaf £200k yn cael ei gadw yn yr holl gyfrifon Natwest er mwyn lleihau'r risg o ffioedd gorddrafft a llog, fodd bynnag, gallai hyn godi a gostwng at i fyny i £50k os nad yw'n ymarferol i drosglwyddo i neu oddiwrth gwrthbarti; • Mae cyfnod amser a swm ariannol penodol yn cael ei osod ar gyfer pob buddsoddiad / adneuon i leihau risgiau. Gweler tabl 1 uchod.
<p>Trefniadau wrth gefn eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Awdurdod wedi defnyddio benthycu mewnol dros nifer o flynyddoedd i ariannu ei raglen gyfalaf. Mae hyn wedi lleihau balansau arian y Cyngor er mwyn arbed ar gostau y mae'n rhaid talu llog arnynt. Os oes risg o ddiffyg arian parod, bydd y Cyngor yn allanoli benthycu mewnol at y swm sydd ei angen i sicrhau hylifedd a chan gymryd i ystyriaeth y swm o £5m a nodir uchod fel targed ar gyfer arian y gellir cael ato'n syth;

	<ul style="list-style-type: none"> Gall y Cyngor hefyd fenthycu arian am gyfnod dros dro o hyd at 364 diwrnod gan awdurdodau lleol eraill neu'r farchnad arian petai prinder llif arian yn ystod y flwyddyn.
Benthycu cyn bod angen	<ul style="list-style-type: none"> Fel rheol gyffredinol, ni fydd y Cyngor yn benthycu cyn i'r angen godi. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol, gellir ystyried hyn gyda chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 a'r deilydd Portffolio Cyllid ar yr amod y cyflwynir achos busnes llawn.

1.3 Rheoli Risg Cyfraddau Llog

Mae rheoli risg cyfraddau llog yn ymwneud â'r camau a gymerir gan y Cyngor i leihau'r risg o gynydd mewn costau llog ac i fanteisio i'r eithaf ar y llog sydd ar gael a hynny gan gadw mewn golwg y cyfyngiad bod angen i'r holl fuddsoddiadau fod yn hynod ddiogel ac yn gymharol hylifol. Bydd yr Awdurdod yn rheoli pa mor agored ydyw i'r amrywiadau mewn cyfraddau llog drwy ffrwyno ei gostau llog, neu sicrhau ei dderbyniadau llog, yn unol â'r symiau a ddarparwyd yn ei drefniadau cyllidebol fel y'u diwygiwyd yn unol â TMP6 - Trefniadau o ran y gofynion adrodd a rheoli gwybodaeth.

Y trothwyon a gymeradwyir o ran cyfraddau llog	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Cyngor yn defnyddio cyfuniad o fuddsoddiadau cyfradd llog amrywiol a llog sefydlog i sicrhau'r dychweliadau gorau posib tra'n lleihau'r risgiau. Bydd y buddsoddiadau / adneuon yn fuddsoddiadau gwrthbartion risg isel yn hytrach na buddsoddiadau llog uchel. Bydd buddsoddiadau cyfradd llog sefydlog yn rhai tymor byr diogel sydd yn uwch na'r cyfraddau amrywiol a gynigir; Yn yr un modd, mae portffolio dyledion y Cyngor yn cynnwys rhai benthyciadau cyfradd llog sefydlog a rhai cyfradd amrywiol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiadau yn y portffolio presennol yn rhai llog cyfradd sefydlog er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfraddau llog is; Bydd y Swyddog Adran 151 a'r tîm TM yn monitro cyfraddau llog a bydd yn gwneud y penderfyniadau mwyaf cost-effeithiol ar y pryd o ran buddsoddi a benthycu gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a geir gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor.
Pwyntiau sbardun a chanllawiau ar gyfer rheoli newidiadau i gyfraddau llog	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhan fwyaf o bortffolio dyledion yr Awdurdod yn rhai llog sefydlog er mwyn sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd taliadau ac i osgoi bod yn agored i unrhyw gynydd posibl mewn costau; Bydd penderfyniadau i ail-ariannu a phenderfyniadau i fenthycu heb gymorth hefyd yn cymryd i ystyriaeth y cyfraddau llog ar y pryd; Bydd ail-ariannu yn cael ei ystyried yn hyfyw os yw'r disgownt a dderbyniwyd yn gorbwyso taliadau premiwm.
Cyfraddau uchaf / isaf y dyledion /llogau cyfradd amrywiol a'r dyledion / llogau cyfradd sefydlog	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r trothwyon uchaf o ran cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a'u cofnodi yn y TMSS.
Defnyddio deilliannau ariannol	<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd y Cyngor yn defnyddio Deilliannau Ariannol oherwydd ystyrir bod y risgiau sydd ynghlwm yn rhy uchel ar gyfer amcanion TMSS y Cyngor.

1.4 Rheoli'r risg sydd ynghlwm wrth y gyfradd gyfnewid

Bydd y Cyngor yn rheoli pa mor agored ydyw i amrywiadau mewn yn y cyfraddau cyfnewid er mwyn lleihau unrhyw effaith niweidiol ar y lefelau incwm / gwariant y cyllidebwyd ar eu cyfer.

Trothwyon o ran y gyfradd gyfnewid	<ul style="list-style-type: none">• Bydd yr holl fuddsoddiadau / dyledion yn cael eu gwneud mewn sterling. Fel rhai o'i arferion Rheoli Trysorlys, ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn arian cyfredol arall oherwydd byddai hynny'n gwneud y Cyngor yn agored i risg ormodol a gallai effeithio'n andwyol ar hylifedd. Yr unig amser y bydd y Cyngor yn agored i risgiau o ran y gyfradd gyfnewid yw achosion lle mae grant yn cael ei dalu i'r Cyngor mewn arian cyfredol arall neu fod rhaid i'r Cyngor dalu cyflenwr mewn arian cyfredol arall. Bydd unrhyw arian cyfredol tramor a delir i'r Cyngor yn cael ei newid i sterling cyn gynted ag y bo modd. Mae'r Cyngor yn agored i'r risg o amrywiadau yn y gyfradd llog gan fod grantiau Ewropeaidd yn cael eu talu ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y cais am grant. Fodd bynnag, mae sawl mis o oedi cyn i'r grant gael ei dalu fel arfer. Bydd unrhyw arian tramar a delir i'r Cyngor yn cael eu trosi i Sterling cyn gynted â phosib.
---	---

1.5 Ail-ariannu rheoli risg

Mae ail-ariannu rheoli risg yn gysylltiedig â rheoli portffolio dyledion y Cyngor mewn modd sy'n lleihau'r risg o gynnydd mewn costau o weithgareddau ail-ariannu. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei drefniadau benthyca, ariannu preifat a phartneriaeth yn cael eu negodi, eu strwythuro a'u cofnodi. Caiff proffil aeddfedrwydd yr arian a fenthycwyd ei reoli, gyda'r bwriad o gael cynnig y telerau adnewyddu neu ail-ariannu mwyaf cystadleuol a ffafriol i'r Cyngor petai eu hangen ac fel sy'n rhesymol o ystyried amodau'r farchnad ar y pryd. Bydd y Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli ei berthynas gyda'i wrthbartion mewn trafodion mewn modd a fydd yn cyflawni'r amcan hwn, a bydd yn osgoi gorddibyniaeth ar unrhyw un ffynhonnell ariannu os gallai hyn beryglu cyflawniad yr uchod.

Polisiau ac arferion dyledion/aeddfedrwydd cyllid cyfalaf arall	<ul style="list-style-type: none">• Bydd y Cyngor yn ceisio rheoli ei portffolio dyledion a ffynonellau cyllido cyfalaf eraill yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Bydd y Cyngor yn y lle cyntaf yn defnyddio'r ffynonellau rhataf o ariannu cyfalaf sydd ar gael a bydd benthyca digefnogaeth yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf pan fydd pob opsiwn arall wedi methu;• Bydd y Cyngor yn defnyddio balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar gyfer benthyca'n fewnol i leihau ei gostau cyllido cyfalaf os yw hyn yn gost effeithiol. Fodd bynnag, bydd terfyn ar faint y gall y Cyngor ddefnyddio benthyca mewnol. Ni fydd y Cyngor yn defnyddio balansau ariannol i fenthycu'n fewnol os bydd hynny'n risg i hylifedd. Ni ddylid benthyca'n fewnol i'r graddau y byddai hynny'n golygu bod llai na £10m ym malansau arian parod y Cyngor;• Wrth fenthycu ar gyfer y tymor hwy, dylid cydymffurfio gyda'r Côt Darbodus sy'n golygu y bydd yn fforddiadwy;• Bydd benthyciadau tymor hir yn cydymffurfio gyda'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion darbodus, er enghraifft, bydd benthyca yn cael ei gadw o fewn y terfyn benthyca awdurdodedig;• Ni fydd dyled yn cael eu haildrefnu oni bai y bydd hynny'n gost effeithiol, e.e. os yw'r disgowntiau a dderbynir yn uwch na'r premiymau a godir am derfynu benthyciadau'n gynnar. Byddai hyn yn cael ei wneud er mwyn elwa ar gyfraddau llog is ac i osgoi gorfod talu nifer o fenthyciadau yn ôl ar yr un pryd os byddai hynny'n rhy gostus. Bydd y Cyngor yn cymryd cyngor gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys ar fanteision a chostau aildrefnu dyledion;
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y portffolio dyled yn cael ei reoli mewn modd a fydd yn osgoi unrhyw broblemau sylweddol gydag ail-ariannu yn y dyfodol. Yn ddefnyddiol, ni ddylai fod angen ad-dalu mwy na £5 miliwn mewn unrhyw un flwyddyn. Wrth ystyried benthycia o'r newydd, rhaid asesu pryd y bydd dyledion y portffolio presennol yn aeddfedu er mwyn osgoi problemau yn y dyfodol; • Cyn cymryd unrhyw fenthyciadau newydd, rhaid gwerthuso'r opsiynau er mwyn penderfynu ar y cyfnod amser mwyaf cost effeithiol a fforddiadwy ar gyfer y benthyciad. Bydd y gwerthusiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth y proffil dyledion presennol ac unrhyw ofynion o ran ail-ariannu. Dylid ystyried y gwahanol fathau o fenthyciadau er mwyn penderfynu pa rai fyddai orau i'r Cyngor. Er enghraifft a ddylid cymryd benthyciad sy'n aeddfedu, sef benthyciad y mae'n rhaid ei dalu'n ôl ar ddiwedd y cyfnod, neu flwydd-dâl lle mae rhywfaint o'r benthyciad, yn ogystal â'r llog, yn cael ei ad-dalu bob blwyddyn. Er enghraifft, mae benthyciad sy'n aeddfedu yn fwy priodol pan mae cyfraddau llog yn isel er mwyn manteisio i'r eithaf ar hynny. Mae blwydd-daliadau'n fwy priodol pan mae cyfraddau llog yn uchel a byddai'r Cyngor yn elwa o randaliadau rheolaidd ar y prif fenthyciad a chostau llog is wrth i'r prif fenthyciad leihau dros amser; • Mae Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn rhoi rhagamcanion o'r cyfraddau llog i'r cyngor er mwyn cefnogi penderfyniadau rheoli trysorlys ar fuddsoddiadau a benthyciadau. Caiff y rhagamcanion eu cynnwys yn y TMSS bob blwyddyn.
<p>Y gofynion buddsoddi cyfalaf a ragwelir</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r TMSS blynyddol yn rhoi manylion am y gwariant cyfalaf a'r cyllid gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf a archwiliwyd. Mae hefyd yn cynnwys rhagolygon ar gyfer y flwyddyn cyn y cyfnod TMSS, blwyddyn y TMSS a'r ddwy flynedd ddilynol. Mae hyn o gymorth i nodi'r anghenion ar gyfer cyllido rhaglen gyfalaf bob blwyddyn; • Mae gofynion y Cyngor ar gyfer benthycia yn y tymor hir wedi'i gysylltu â Gofynion Cyllido Cyfalaf (GCC); • Bydd y Cyngor yn gwerthuso opsiynau er mwyn sicrhau ei fod yn dewis y dulliau mwyaf cost effeithiol o ariannu cyfalaf a bod y ffynonellau rhataf o ariannu cyfalaf yn cael eu defnyddio yn y lle cyntaf.
<p>Y polisi mewn perthynas â therfynau ariannu cyfalaf ar ganlyniadau referniw</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi'i ymrwmo gan y côd Darbodus a'r angen i sicrhau bod benthyciadau yn fforddiadwy; yn gynaliadwy ac yn ddarbodus; • Ni ddylai dyledion y Cyngor, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na chyfanswm y gofyniad Cyllido Cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r ddwy flynedd ariannol nesaf; • Mae cysylltiad rhwng y cyllidebau cyfalaf a referniw. Mae cyllid cyfalaf allanol yn arwain at gostau ariannol sy'n effeithio ar y gyllideb referniw drwy gostau llog a'r MRP; • Amcangyfrifir y bydd costau ariannu cyfalaf pob blwyddyn sydd i ddod yn cael eu cynnwys ar adeg gosod y gyllideb flynyddol; • Mae costau ariannu cyfalaf yn y tymor hwy hefyd yn cael eu hystyried yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Cyngor sy'n ymwneud â chyfnod o dair blynedd;

	<ul style="list-style-type: none"> Yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a gymeradwywyd ym Medi 2016, dygir sylw at y ffaith mai un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys. Mae'r strategaeth yn argymhell y dylid cyfyngu prosiectau cyfalaf newydd i lefel o gyllido cyfalaf na fydd yn arwain at gostau refeniw ychwanegol. Dywed y strategaeth na ddylid ystyried benthyca heb gymorth ond mewn achos lle gellir gostwng cyllideb y gwasanaeth perthnasol gan swm sy'n uwch na'r MRP a chostau llog. Nid yw hyn yn cynnwys rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif oherwydd mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo iddi. Fodd bynnag, byddai unrhyw arbedion o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu defnyddio i ariannu'r cynnydd yn y costau ariannu cyfalaf.
--	--

1.6 Rheoli risgiau cyfreithiol a rheoleiddiol

Mae risgiau cyfreithiol a rheoleiddiol yn ymwneud â'r risg y bydd y Cyngor neu drydydd partion sy'n ymdrin â Rheoli Trysorlys ar ran y Cyngor, yn methu â gweithredu yn unol â phwerau cyfreithiol yr Awdurdod neu ofynion rheoleiddiol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei holl weithgareddau rheoli trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol a'r gofynion rheoleiddiol. Bydd yn profi ei gydymffurfiaeth petai raid i'r holl bartion y mae'n ymwneud â nhw mewn gweithgareddau o'r fath. Wrth lunio ei *bolisi rheoli credyd a gwrthbarti* dan TMP[1], bydd yn sicrhau bod tystiolaeth ar gael o bwerau, awdurdod a chydymffurfiaeth gwrthbartion mewn unrhyw drafodion y byddant efallai'n eu cyflawni gyda'r sefydliad, yn enwedig o ran dyletswydd gofal a ffioedd a godir. Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y gallai newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol yn y dyfodol effeithio ar ei weithgareddau rheoli trysorlys ac, i'r graddau y mae'n rhesymol i wneud hynny, bydd yn ceisio lleihau'r risg y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar y sefydliad.

<p>Deddfwriaeth sy'n effeithio ar Weithgareddau Rheoli'r Trysorlys</p>	<ul style="list-style-type: none"> Deddf Llywodraeth Leol 2003; Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 Rhif 3239 (W 319) a newidiadau a wnaed wedyn gan gynnwys y rhai diweddaraf; Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiad) 2016; Rheoliadau 3362 W337 Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; CIPFA, Côt Rheoli Trysorlys 2011; CIPFA, Côt Darbodus 2013; Côt Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol; Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys Ynys Môn; Rheolau Gweithdrefnau Cyllid Ynys Môn; Rheolau Gweithdrefn Contract Ynys Môn.
<p>Gweithdrefnau ar gyfer dangos tystiolaeth o bwerau / awdurdod y Cyngor i wrthbartion</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod wedi cael eu hymgorffori yn y gyfraith. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ddeddfwriaeth allweddol mewn perthynas â swyddogaethau cynghorau. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 yn ddeddfwriaeth bwysig a arweiniodd at greu'r awdurdodau unedol yng Nghymru y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn un ohonynt ac mae'n cynnwys y gyfraith ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r hen awdurdodau; Mae Adran 3.5.3.5 o gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu awdurdod dirprwyedig y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Mae 3.5.3.5.3 yn cydnabod mai deilydd y swydd hon fydd swyddog cyllid cyfrifol y Cyngor o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 am Fuddsoddi a Chynllunio Cyfalaf ei nodi yn 3.5.3.5.8. Yn ogystal, mae 3.5.3.5.17 yn amlinellu cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 i reoli trefniadau benthyca a bancio'r Awdurdod;

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae 4.3 yn y cyfansoddiad, sef y rheolau gweithdrefn ar gyfer cyllidebu a'r fframwaith polisi yn amlinellu'r cyfrifoldebau yn y Cyngor mewn perthynas â Cyllidebu a Pholisi; • Mae 4.8 yn y cyfansoddiad yn amlinellu rheolau gweithdrefn ariannol yr Awdurdod; • Mae 4.9 yn y cyfansoddiad yn nodi'r rheolau gweithdrefn contract y mae'r Cyngor yn ymrwymo iddynt; • Gellir rhannu'r rhain i gyd gyda gwrthbartion ac maent ar gael hefyd ar wefan y Cyngor.
Gwybodaeth sydd ei hangen gan wrthbartion mewn perthynas â'u pwerau / awdurdod	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fydd y Cyngor ond yn gwneud buddsoddiadau / adneuo mewn sefydliadau sydd wedi cael eu harchwilio'n annibynnol gan dair ffynhonnell credadwy. Rhaid i'r graddau hyn fod yn uwch na'r statws credyd sylfaenol a nodir yn y TMSS. Mae Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd i gynorthwyo'r Awdurdod i fonitro'r rhain; • Bydd benthyca i sefydliadau trydydd parti yn eithriad ac ni fydd yn cael ei wneud ond i sefydliadau sydd wedi cael gwerthusiad ariannol trylwyr; • Ni fydd y Cyngor ond yn benthyca o ffynonellau cymeradwy megis y PWLB, awdurdodau lleol eraill a banciau masnachol eraill sydd ar restr y Cyngor o sefydliadau awdurdodedig.
Datganiad ar risgiau gwleidyddol y Cyngor a rheoli'r risgiau hyn	<ul style="list-style-type: none"> • Mae deddfwriaeth yn ei lle i reoleiddio unrhyw risgiau gwleidyddol mewnol. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn deddfu ar ymddygiad Aelodau a swyddogion; • Mae cyfansoddiad y Cyngor a chynlluniau dirprwyo o gymorth i leihau risgiau gwleidyddol; • Mae'r ffaith bod y Cyngor yn mabwysiadu bob TMSS blynyddol a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn lleihau'r risg ymhellach; • Mae'r codau ymddygiad i Aelodau a'r swyddogion codau ymddygiad hefyd yn darparu fframwaith sy'n lleihau'r risg; • Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y sefydliad ac yn benodol, cydymffurfiaeth gyda TMP12 i liniaru risg; • Mae risgiau gwleidyddol allanol yn cael eu lliniaru drwy gael TMSS ac Arferion Rheoli Trysorlys (TMPs) cadarn. Bydd diweddariadau dyddiol gan Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cefnogi'r camau gweithredu sydd eu hangen i liniaru risgiau.

1.7 Twyll, Camgymeriadau a Llygredd a Tthrefniadau Rheoli Wrth Gefn

Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod wedi nodi'r amgylchiadau a allai ei adael yn agored i'r risg o golled trwy dwyll, camgymeriad, llygredd neu ddigwyddiadau eraill yn ei drafodion rheolaeth trysorlys. Yn unol â hynny, bydd yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, a bydd yn cynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol i'r dibenion hyn.

Systemau a gweithdrefnau i leihau'r risg o golled trwy dwyll, gwallau a llygredd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae yna sawl lefel o wahaniad dyletswyddau ac fe'u hamlinellir yn TMP5 isod. Mae'r tîm Rheoli'r Trysorlys yn monitro llif arian ac yn argymhell trosglwyddiadau. Caiff y trefniadau buddsoddi / adneuo cychwynnol eu cwblhau gan y tîm Rheoli'r Trysorlys gyda chymeradwyaeth y swyddog S151 neu ei ddirprwyon. Nid yw'r tîm Rheoli'r Trysorlys yn ymwneud o gwbl â phrosesu trafodion Rheoli Trysorlys;
---	--

	<ul style="list-style-type: none"> • Ni wneir trafodion Rheoli Trysorlys ond gyda gwrthbartïon sydd wedi cael eu awdurdodi i ddelio â'r Cyngor. Bydd yr holl drafodion yn mynd o/i'r cyfrif cyffredinol. Bydd cysoniadau banc yn cael eu cwblhau hefyd i liniaru yn erbyn risgiau; • Caiff yr holl drafodion rheoli trysorlys eu prosesu drwy CHAPS gan ddefnyddio system fancio ar-lein y Natwest. Mae hon yn system ddiogel sydd, yn ogystal â chyfrineiriau, yn gofyn am ddefnyddio darllenwyr cerdyn i awdurdodi trafodion. Gwahenir dyletswyddau fel nad oes gan unrhyw aelod o'r tîm sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am Reoli Trysorlys fynediad i brosesu taliadau / trosglwyddiadau. Nid yw'r swyddogion yn y tîm technegol sy'n prosesu'r taliadau / trosglwyddiadau yn ymwneud ag awdurdodi taliadau / trosglwyddiadau; • Mae system Bankline Natwest wedi cael ei sefydlu i sicrhau gwahaniad dyletswyddau ac mae'n caniatáu mynediad at y lefel briodol, er enghraifft, hawliau 'view only' sydd gan y tîm Rheoli Trysorlys i'r llinell fancio; • Mae gan y Cyngor restr o swyddogion penodedig sydd â'r awdurdod i ddelio gyda benthyciadau a thrafodion. Caiff y broceriaid a'r gwrthbartïon y mae'r Cyngor yn delio'n uniongyrchol â nhw, gopi o'r swyddogion a enwir; • Caiff cysoniadau rheoli trysorlys eu cwblhau bob mis fel rhan o'r broses rheoli ansawdd; • Mae tîm rheoli'r trysorlys yn defnyddio meddalwedd arbenigol ar gyfer rheoli trysorlys, sef Logotech i gefnogi'r gwaith o fonitro gweithgareddau rheoli trysorlys; • Bydd archwilio mewnl yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys.
<p>Cynllunio ar gyfer argyfwng a digwyddiadau annisgwyl</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae copïau caled ar gael o'r holl benderfyniadau a gweithgareddau rheoli trysorlys; • Mae'r holl systemau TG gan gynnwys y systemau Rheoli Trysorlys yn cael eu cefnogi gan y swyddogaeth TGCh a gellir eu hadfer; • Mae gan bob gwasanaeth / swyddogaeth yn y Cyngor gynllun Parhad Busnes; • Petai system Bankline Natwest yn methu, gellir cael y balansau o gangen y Natwest yn Llangefni. Mae'r rhan fwyaf o drafodion rheoli trysorlys yn mynd i gyfeiriad bancio ar-lein. Os nad yw cyfleuster bancio ar-lein gwrthbarti ar gael, byddid yn cysylltu gyda'r rheolwr perthynas i gael gwybodaeth am eu gweithdrefnau amgen. Mae hyn yn golygu y byddai'r banc yn cysylltu gyda llofnodwr awdurdodedig ar gyfer cymeradwyaeth. Os na fydd rhyngrwyd y Cyngor ar gael, gellir defnyddio ffynhonnell rhyngrwyd fel rhan o'r rhaglen gweithio'n gallach.
<p>Manylion Yswiriant</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn cymryd Yswiriant Fidelity Guarantee er mwyn amddiffyn ei hun yn erbyn unrhyw weithgaredd twyllodrus o fewn y gweithgareddau Rheoli Trysorlys. Mae'n gwarantu swm o £ 10m petai unrhyw un o'r swyddogion enwebedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli trysorlys yn achosi colled i'r Awdurdod ac £ 1 miliwn ar gyfer unrhyw weithiwr arall.

1.8 Rheoli Risg y Farchnad

Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisiâu a'i amcanion rheoli trysorlys yn cael eu peryglu gan unrhyw amrywiadau anffafriol yn y farchnad o ran gwerth y prif symiau y mae'n eu buddsoddi, a bydd felly'n ceisio ei amddiffyn ei hun rhag effeithiau amrywiadau o'r fath.

<p>Y gweithdrefnau a'r trothwyon a gymeradwywyd ar gyfer rheoli risg i fuddsoddiadau y gall eu cyfalaf amrywio</p>	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS) yn caniatáu buddsoddiadau risg uchel sy'n debygol o amrywio. Ni fedrir ond buddsoddi yn unol â'r meini prawf a nodir yn y TMSS a gymeradwywyd gan y Cyngor. Lle mae'r Cyngor yn buddsoddi neu'n benthyca dros o farchnadoedd ariannol, rhaid iddo fenthyca o gronfeydd gradd AAA sy'n cael eu harallgyfeirio dros nifer o fuddsoddiadau sydd yn lleihau y perygl o risg ac amrywiadau cyfalaf. (Mae meini prawf y gwrthbartion yn gael ei gynnwys yn Atodiad 6 y TMSS 2017/18 ac fe'i cynhwysir uchod yn nhabl 1).
---	--

TMP2 – Rheoli Perfformiad

Mae'r Awdurdod yn ymrwmo i geisio sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli trysorlys ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gefnogi'r nod hwnnw. Rhaid i werth am arian fod yn rhan o'r fframwaith a nodir yn y TMSS. Yn unol â hynny, bydd y swyddogaeth rheoli trysorlys yn cael ei dadansoddi'n barhaus o ran y gwerth y mae'n ei ychwanegu i gefnogi'r amcanion busnes neu wasanaeth a nodwyd gan y sefydliad. Ymchwilir yn rheolaidd i ddulliau amgen o ddarparu'r gwasanaeth, o argaeledd grantiau neu fathau eraill o anogaeth ariannol a'r sgôp ar gyfer gwelliannau posibl eraill.

<p>Methodoleg i werthuso effaith penderfyniadau rheoli trysorlys</p>	<ul style="list-style-type: none"> Amcanion craidd y TMSS yw y bydd y gweithgareddau rheoli trysorlys yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, hylifedd a dychweliadau yn y drefn honno. Felly, nid yw'r swyddogaeth yn cael ei barnu ar y dychweliadau'n unig. Caiff penderfyniadau rheoli trysorlys eu gwerthuso yn erbyn ei amcanion craidd; Mae'r adroddiadau canol blwyddyn ac alldro ar Reoli Trysorlys yn galluogi sgriwtimeiddio'r perfformiad o ran amcanion allweddol y gweithgareddau Rheoli Trysorlys; Mae'r dangosyddion darbodus sy'n cael eu cynwys yn y TMSS a'r adroddiadau uchod yn sylfaenol i fonitro gweithgaredd rheoli trysorlys; Caiff dychweliadau a gweithgareddau Rheoli Trysorlys eu monitro hefyd bob chwarter yn y Cardiau Sgorio Corfforaethol.
<p>Methodoleg ar gyfer profi gwerth am arian wrth reoli trysorlys</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r swyddogaeth rheolaeth trysorlys yn cael ei darparu'n fewnol ar hyn o bryd. Gellid profi'r farchnad ar unrhyw adeg drwy gwerthwchigymru; Caiff y gwasanaeth Ymgynghori arbenigol ar Reoli Trysorlys ei hysbysebu ar gwerthwchigymru ar ddiwedd pob cyfnod contract. Roedd y contract presennol yn ganlyniad proses dendro y llynedd drwy gwerthwchigymru. Capita Asset Services gyflwynodd y tendr llwyddiannus ac mae'r contract ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn am hyd at ddwy flynedd; Gwahoddir tendrau am y gwasanaethau bancio bob pum mlynedd drwy gwerthwchigymru. Natwest sydd â'r contract ar hyd o bryd a hynny ers 3 Chwefror, 2016;

	<ul style="list-style-type: none"> • Ceir rhestr gymeradwy o wasanaethau broceriaeth ariannol a gofynnir am gyngor gan 3 brocer wrth lunio opsiynau ar gyfer buddsoddiadau rheolaeth trysorlys; • Nid yw'r Cyngor yn defnyddio gwasanaethau rheoli arian / cronfeydd fel rhan o'i weithgareddau rheoli trysorlys. Fodd bynnag, mae rheolwyr y gronfa yn cael eu defnyddio ar gyfer nifer o ymddiriedolaethau elusennol y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ar eu cyfer.
--	---

TMP3 – Gwneud penderfyniadau a dadansoddiadau

Bydd y Cyngor yn cadw cofnodion llawn o'i benderfyniadau rheoli trysorlys a'r prosesau ac arferion a ddefnyddiwyd wrth wneud penderfyniadau hynny. Bydd y Cyngor yn dysgu o'i brofiadau a'i benderfyniadau yn y gorffennol a bydd yn adeiladu ar ei lwyddiannau ac yn cymryd camau i osgoi unrhyw faterion negyddol a allai godi. Bydd y Cyngor yn cofnodi penderfyniadau fel y gall yr Awdurdod ddangos bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi cael eu cymryd i ystyriaeth ar y pryd.

Pwerau dirprwyedig a chadw cofnodion	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (TMSS) wedi iddo gael ei sgrwtinieddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a'i ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a rhaid cofnodi'r penderfyniadau hyn yn ffurfiol; • Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sydd â'r awdurdod dirprwyedig ar gyfer pob agwedd ar reoli trysorlys. Rhaid i bob penderfyniad gydymffurfio â'r TMSS. Bydd y tîm rheoli trysorlys yn darparu opsiynau ac argymhellion i'r Swyddog Adran 151 eu hystyried pan fydd angen buddsoddiad neu fenthyciad newydd. Bydd hyn yn cael ei gofnodi a'i lofnodi gan y Swyddog Adran 151. Bydd y penderfyniadau dydd i ddydd gyda'r gwrthbartion presennol yn cael eu gwneud gan y tîm rheoli trysorlys gydag un aelod o'r tîm yn argymhell trafodiad ac aelod arall o'r tîm sydd â swydd uwch yn cymeradwyo'r argymhelliad hwnnw.
Gwelliant parhaus	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Cyngor yn gwerthuso gweithgareddau rheoli trysorlys a cheisio osgoi unrhyw ganlyniadau negyddol ac adeiladu ar arferion a chanlyniadau da o ran rheoli trysorlys. Gwneir hyn ar sail ymarferol o ddydd i ddydd; • Ar lefel fwy ffurfiol, bydd rheoli trysorlys yn cael ei werthuso drwy'r adroddiadau rheoli trysorlys canol a diwedd blwyddyn a bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu sgrwtinieddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a'u hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor; • Mae perfformiad hanesyddol y dangosyddion darbodus a'r rhagolygon o'u perfformiad eu cynnwys yn y TMSS blynyddol a gaiff ei sgrwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'i gymeradwyo gan y Cyngor.

Wrth ymgymryd â'i weithgareddau rheolaeth trysorlys, ni fydd y Cyngor ond yn defnyddio'r offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny y manylir arnynt isod ac o fewn y terfynau a'r paramedrau a ddiffinnir yn TMP1 Rheoli risg a TMSS y Cyngor. Bydd yr holl offerynnau, dulliau a thechnegau yn canolbwyntio ar y rhai sy'n cynnig y diogelwch a'r hylifedd mwyaf. Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau'r cynhyrchiant mwyaf posibl o fewn y ddwy brif flaenoriaeth hyn. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cyngor priodol gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys arbenigol a gomisiynwyd ganddo a bydd yn ystyried y cyngor hwnnw wrth wneud trefniadau i ddefnyddio cynhyrchion o'r fath er mwyn sicrhau ei fod yn deall yn llawn y cynhyrchion hynny.

<p>Offerynnau, dulliau a thechnegau ariannu cyfalaf a gymeradwywyd</p>	<p>Allanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB); • Benthyciadau marchnad arian dros dro (hyd at 364 diwrnod); • Benthyciadau marchnad arian tymor hir; • Gorddrafft banc (dim ond mewn amgylchiadau eithriadol ac os mai hwn yw'r opsiwn rhataf ar gyfer angen tymor byr iawn); • Benthyciadau masnachol; • Benthyciadau gan sefydliadau eraill os yw'r telerau ac amodau'n ffafriol. Bydd angen i'r sefydliadau fod wedi eu hawdurdodi i fenthyca a dylent gael eu rheoleiddio; • Prydlesau ariannol; • Prydlesau gweithredol; • Grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth a grantiau Ewropeaidd; • Grantiau Cyfalaf gan sefydliadau eraill, er enghraifft, y Loteri Genedlaethol; • Cyfraniadau /Rhoddion; • PFI / PPP. <p>Mewnol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyniadau cyfalaf; • Cyfraniadau referniw; • Defnydd o gronfeydd wrth gefn.
<p>Offerynnau, dulliau a thechnegau a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") a Chôd Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ("Côd TM CIPFA"). Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail a dychweliadau'n drydydd; • Yn unol â'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA, ac er mwyn lleihau'r risg i fuddsoddiadau, mae'r Cyngor yn defnyddio meini prawf o ran yr isafswm credyd derbynol er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartion sy'n hynod deilwng o greddyd ac sydd hefyd yn caniatáu arallgyfeirio sydd yn ei dro, yn osgoi'r risg o grynodiad. Y sgorau allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartion yw'r sgorau Byr Dymor a Hir Dymor;

	<ul style="list-style-type: none"> • Yn unol ag arferion blaenorol, nid sgorau yn unig fydd yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar ansawdd ac mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus ar sail micro a macro a chan gymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau yn gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis "credit default swaps" a throshaenu'r wybodaeth honno ar ben y statws credyd; • Bydd ffynonellau gwybodaeth eraill a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r proses graffu gadarnaf bosib ar addasrwydd gwrthbartion posib y gellid buddsoddi ynddynt. <p>Mae'r isod yn fuddsoddiadau a gymeradwywyd yn unol TMSS :-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Buddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol yn atodiad 6 y TMSS (gweler hefyd Tabl 1 uchod); • Banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol unol â'r TMSS; • Llywodraeth Ganolog y DU; • Awdurdodau lleol yn y DU; • Cronfeydd marchnad arian sydd â statws AAA yn unol â'r TMSS.
--	--

TMP5 – Trefniadaeth; eglurder; gwahaniad cyfrifoldebau a chyflawni trafodion

Mae'r Cyngor yn ystyried bod rheolaeth a monitro effeithiol o'i weithgareddau rheoli trysorlys yn hanfodol, ar gyfer lleihau'r risg o dwyll neu gamgymeriad, ac ar gyfer mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl integredig a cheir eglurder bob amser mewn perthynas â chyfrifoldebau rheoli trysorlys. Bydd hyn yn seiliedig ar yr egwyddor bod gwahaniad clir rhwng y rhai sy'n gyfrifol am bennu polisïau rheoli trysorlys a'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu a rheoli'r polisïau hynny, yn enwedig o safbwynt gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys, ac archwilio ac adolygu'r swyddogaeth rheoli trysorlys.

Os a phan fydd yr Awdurdod, oherwydd diffyg adnoddau neu amgylchiadau eraill, yn bwriadu gwro oddi wrth yr egwyddorion hyn, bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod y rhesymau yn cael eu hadrodd yn gywir yn unol â Gofynion Adroddiad TMP6 a'r trefniadau rheoli gwybodaeth, a bydd y goblygiadau yn cael eu hystyried a'u gwerthuso'n iawn. Bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod datganiadau ysgrifenedig clir o gyfrifoldebau ar gyfer pob swydd sy'n ymwneud â rheoli trysorlys, a'r trefniadau wrth gefn pan fydd staff yn absennol. Bydd y swyddog cyfrifol hefyd bob amser yn sicrhau y bydd y rhai sy'n gysylltiedig â rheoli trysorlys yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a bennwyd. Ceir manylion am y trefniadau presennol isod.

Bydd y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod yna waith papur cywir ar gyfer yr holl gytundebau a thrafodion ariannol, a bod gweithdrefnau ar gael ar gyfer trosglwyddo arian yn effeithiol. Ceir manylion am y trefniadau presennol yn isod. Mae'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r swyddog cyfrifol mewn perthynas â rheoli trysorlys hefyd wedi'u nodi isod. Bydd y swyddog cyfrifol yn cyflawni'r holl gyfrifoldebau yn unol â datganiad polisi, TMP y sefydliad ac, os yw'n aelod o CIPFA, gyda'r *Safon Ymarfer Proffesiynol ar Reoli Trysorlys*.

<p>Cynllun dirprwyo</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cyngor llawn yn cymeradwyo'r TMSS ac yn derbyn adroddiad ar yr adolygiad canol blwyddyn a diwedd y flwyddyn ariannol ar berfformiad y swyddogaeth rheolaeth trysorlys; • Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried y TMSS, yr adroddiad canol blwyddyn a'r adroddiad diwedd blwyddyn a TMPS and yn gwneud argymhellion i'r Cyngor; • Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn sgrwrtineiddio'r TMSS, yr adroddiadau rheoli trysorlys canol blwyddyn a diwedd blwyddyn a'r TMPs. • Dirprwywyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yr awdurdod am reoli trysorlys; • Mae'r Pennaeth Swyddogaeth / (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi dirprwyo'r dyletswyddau rheoli trysorlys o ddydd i ddydd i'r Rheolwr Cyllid - Corfforaethol, Systemau a Thechnegol ac i'r tîm Rheoli Trysorlys a'r tîm Technegol. Dirprwywyd i'r Uwch Gyfrifwyr Gwasanaeth a swyddogion uwch yr hawl i awdurdodi trafodion rheoli trysorlys.
<p>Egwyddorion ac arferion sy'n ymwneud â gwahanu dyletswyddau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ym marn y Cyngor, mae gwahanu dyletswyddau yn allweddol i sicrhau rheolaethau cadarn a lleihau'r risgiau yn ei weithgareddau rheolaeth trysorlys. Mae'r cynllun dirprwyaeth uchod mewn perthynas â rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod gwiriadau digonol yn cael eu cynnal a bod dyletswyddau wedi eu gwahanu yn y swyddogaeth rheolaeth trysorlys; • Mae'r balansau yn cael eu gwirio bob bore a'u hasesu yn erbyn incwm y gwyddys ei fod yn ddyledus a thaliadau a wneir gan aelod o dîm rheoli'r trysorlys (TM); • Os disgwylir i'r taliadau fod yn uwch na'r balans isafswm yn y cyfrifon gyda'r Natwest, bydd aelod o'r tîm Rheoli Trysorlys yn llenwi ffurflen drosglwyddo yn darparu'r holl fanylion ar gyfer trosglwyddiad i gyfrif cyffredinol Natwest er mwyn cwrdd ag anghenion llif-arian y dydd. Bydd y manylion yn cael eu gwirio gan reolwr llinell y swyddog TM neu Reolwr Cyllid neu swyddog uwch a'i hawdurdodi os ydynt yn gywir. • Yna, caiff y ffurflen drosglwyddo ei phasio i'r tîm Technegol i brosesu'r trosglwyddiad; • Caiff trosglwyddiadau wedyn eu cymeradwyo gan lofnodwyr awdurdodedig nad ydynt yn rhan o'r tîm Corfforaethol, Systemau a Thechnegol ac nad ydynt wedi awdurdodi'r ffurflen drosglwyddo er mwyn sicrhau gwahanu dyletswyddau cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd; • Caiff y balansau eu gwirio yn rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiadau yn cael eu cwblhau. Os nad yw trosglwyddiad wedi ei gwblhau erbyn 2pm y diwrnod hwnnw, dylai aelod o'r tîm Technegol gysylltu â'r banc o ble y mae'r trosglwyddiad yn cael ei wneud. Bydd hyn yn sicrhau bod y symiau yn cael eu trosglwyddo i'r Natwest erbyn diwedd y diwrnod gwaith. Bydd balansau hefyd yn cael eu hail-wirio tuag at ddiwedd y diwrnod gwaith. Bydd cofnod yn cael ei wneud ar daflen crynhoi llif arian y diwrnod hwnnw gyda balansau'r bore a'r prynhawn yn cael eu gwrth-lofnodi gan reolwr llinell y swyddog TM, Rheolwr Cyllid neu Uwch Gyfrifydd sydd ddim yn cymryd rhan yn y broses neu'r awdurdodi o unrhyw drafodiad rheoli trysorlys neu uwch; • Bydd unrhyw balansau sy'n gost-effeithiol i'r trosglwyddo h.y. mae'r llog ar gyfer cyfnod y buddsoddiad yn uwch na'r costau trosglwyddo (h.y. y ffioedd CHAPS) yn cael eu trosglwyddo i gwrthbarti yn unol â'r rhestr gymeradwy o wrthbartion a'r TMSS. Bydd y rhain ar y cyfraddau llog gorau posib o fewn y paramedrau, sef eu bod yn hynod ddiogel a bod modd cael atynt. Bydd yr un drefn â'r un a ddilynir wrth drosglwyddo i'r Natwest yn cael ei dilyn gyda phob un o'r pedwar cam o wahanu dyletswyddau.

<p>Siart Trefniadaeth Rheoli'r Trysorlys</p>	<pre> graph TD A[Pennaeth Swyddogaeth(Adnoddau) / Swyddog Adran 151] --> B[Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Rheolwr] B --> C[Rheolwr Cyllid – Corfforaethol, Systemau a Thechnegol] B --> D[Rheolwyr Cyllid y Gwasanaethau ac Uwch Gyfrifwyr – llofnodwyr awdurdodedig] C --> E["Tîm Cyfalaf, Rheoli Trysorlys ac Ymddiriedolaethau: 1 Uwch Gyfrifydd 1 Cynorthwy-ydd Cyfrifeg Mae'r tîm yn monitro llif arian; yn ymchwilio i opsiynau rheoli trysorlys; yn ymgynghori gyda broceriaid; cyllido cyfalaf a chyfrifo"] D --> F["Tîm Technegol – mae'r tîm yn prosesu trafodion rheoli trysorlys o fewn y llinell fancio (Bankline) a gwrthbartïon eraill"] </pre>
<p>Datganiad o ddyletswyddau / cyfrifoldebau pob swydd trysorlys</p>	<p>Dirprwywyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 drwy'r cyfansoddiad, y pwerau ar gyfer rheoli'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • argymhell cymalau, polisïau / arferion rheoli trysorlys ar gyfer eu cymeradwyo, gan adolygu'r rhain yn rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth; • cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar bolisïau rheoli trysorlys; • cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r cyllidebau; • derbyn ac adolygu adroddiadau ar wybodaeth reoli; • adolygu perfformiad y swyddogaeth rheolaeth trysorlys; • sicrhau bod digon o adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a bod cyfrifoldebau wedi eu gwahanu'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheolaeth trysorlys; • sicrhau bod digon o adnoddau archwilio mewnol a chysylltu gyda'r archwilwyr allanol; ac • argymhell penodi darparwyr gwasanaeth allanol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu ei benderfyniadau Trysorlys, gan gynnwys penderfyniadau ar fenthycu, buddsoddi ac ariannu, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi a TMP y Cyngor; • Rheolwr y Gwasanaethau Cyfrifeg fydd yn dirprwyo ar gyfer y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog S151 mewn perthynas â'r dyletswyddau uchod; • Y Rheolwr Cyllid - Corfforaethol, Systemau a Thechnegol fydd yn gyfrifol am reoli'r swyddogaeth rheoli trysorlys o ddydd i ddydd; • Y tîm Cyfalaf, Rheoli Trysorlys ac Ymddiriedolaethau fydd yn gyfrifol am weithrediad y swyddogaeth Rheoli Trysorlys. Mae hyn yn cynnwys rhagamcan llif arian yn y dyfodol; monitro llif arian yn ddyddiol; ymchwilio i wahanol opsiynau ar gyfer buddsoddiadau ac os bydd angen unrhyw fenthyciadau newydd, cwblhau'r ceisiadau trosglwyddo rheoli trysorlys a awdurdodwyd yn unol â'r pŵerau a ddirprwywyd i'r tîm. Y tîm hwn hefyd fydd yn cynhyrchu'r TMSS, y TMPs a'r adroddiadau rheolaeth trysorlys; • Bydd y Tîm Technegol yn prosesu unrhyw drafodion rheoli trysorlys o fewn y systemau bancio. Bydd y tîm technegol yn gwirio'r wybodaeth ddwywaith cyn cwblhau'r trafodion; • Bydd y Rheolwyr Cyllid Gwasanaethau ac Uwch Gyfrifwyr yn awdurdodi trafodion rheoli trysorlys ar sail y dystiolaeth ddogfennol bod y trafodion yn briodol.
Trefniadau wrth gefn ar gyfer Absenoldeb	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Rheolwr Cyllid - Corfforaethol, Systemau a Thechnegol a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg yn darparu gwasanaeth wrth gefn petai'r ddau aelod o'r tîm rheoli trysorlys yn digwydd bod yn absennol.
Trothwyon Delio	<ul style="list-style-type: none"> • £10m fesul trafodiad.
Rhestr Froceriaid Cymeradwy	<ul style="list-style-type: none"> • Partneriaid BGC; • ICAP; • King and a Shaxson; • RP Martin; • Tullet Prebon; • Tradition UK.
Polisi ar Wasanaethau Broceriaid	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Cyngor yn defnyddio'r broceriaid a enwir uchod i ymchwilio i opsiynau rheoli trysorlys a'r camau gweithredu angenrheidiol. Bydd y Swyddog Adran 151 neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg yn awdurdodi'r cais am drafodiad ('deal'). Bydd y Cyngor yn gofyn am wybodaeth gan dri o'r broceriaid a enwir uchod ar gyfer unrhyw drafodiad rheoli trysorlys posibl. Bydd y tîm yn ceisio taenu'r busnes rhyngddynt er mwyn sicrhau gwerth am arian a chynnal cysylltiadau busnes.
Polisi ar recordio sgyrsiau	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff sgyrsiau gyda broceriaid eu recordio gan y sefydliadau broceriaeth.

<p>Arferion cyflawni busnes yn uniongyrchol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y tîm rheoli trysorlys yn ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer cyflawni busnes a bydd argymhellion ar gyfer trafodion newydd yn cael eu gwneud i'r Swyddog A151 neu ei ddirprwy; • Bydd aelodau'r tîm rheoli'r trysorlys yn cadarnhau'r trafodyn a ddewiswyd gyda'r brocer unwaith y bydd y Swyddog Adran 151 wedi cytuno iddo; • Bydd ffurflen gais rheoli trysorlys yn cael ei chwblhau gyda gwybodaeth i'w chefnogi gan y tîm rheolaeth trysorlys; • Bydd aelod o'r tîm technegol yn rhoi'r trafodiad i mewn i Bankline a bydd yn gwirio'r manylion ac yn sicrhau bod y swyddog A151 wedi cymeradwyo'r trafodiad; • Bydd y taliad ar-lein yn cael ei awdurdodi gan ddau lofnodwr awdurdodedig ar ôl sicio'r manylion a bod y Swyddog A151 wedi ei gymeradwyo; • Caiff y taliad ar-lein ei brosesu gan CHAPS unwaith y bydd wedi'i awdurdodi; • Rhoddir cadarnhad ysgrifenedig i'r gwrthbarti; • Ceir cadarnhad ysgrifenedig o'r cytundeb gan y brocer a / neu'r gwrthbarti a chaiff ei wirio'n ofalus a'i lofnodi gan Reolwr Cyllid neu swyddog uwch; • Bydd unrhyw wahaniaethau rhwng y cadarnhad a gafwyd gan y brocer a'r trafodyn a negodwyd yn cael eu hymchwilio a'u cywiro ar unwaith; • Caiff y cytundeb ei gofnodi yn y llif arian dyddiol a'r cofnod o fuddsoddiadau / benthyciadau fel sy'n berthnasol; • Gall buddsoddiadau gyda trydydd parti gael ei rollo drosodd gyda caniatad y Swyddog Adran 151 neu ei ddirprwy, mae hyn yn lleihau costau trafodion.
<p>Gofynion o ran dogfennaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer pob cytundeb a wnaed, dylid cadw cofnod yn rhoi manylion am swm, y cyfnod, y gwrthbarti, y gyfradd llog cofnod, dyddiad delio, dyddiad(au) taliadau, brocer. <p>Buddsoddiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • tocyn trafodiad yn awdurdodi'r buddsoddiad; • cadarnhad gan y brocer; • cadarnhad gan y gwrthbarti; • Dogfen trosglwyddo taliad Chaps. <p>Benthyciadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tocyn trafodiad gyda llofnod yn cytuno i'r benthyciad; • cadarnhad gan y brocer; • cadarnhad gan PWLB / gwrthbartion marchnad; • dogfen trosglwyddo taliadau CHAPS ar gyfer ad-dalu'r benthyciad.

TMP6 – Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u hystyried ynglŷn â gweithredu ei bolisiâu rheoli trysorlys. Bydd y rhain yn ystyried effeithiau penderfyniadau a wnaed a thrafodion a wnaed yn unol â'r polisiâu hynny; goblygiadau unrhyw newidiadau, yn enwedig rhai cyllidebol, sy'n deillio o ffactorau rheoleiddiol, economaidd, marchnad neu ffactorau eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheoli trysorlys; ac ar berfformiad y swyddogaeth rheolaeth trysorlys.

O leiaf:

Bydd y Cyngor yn derbyn:-

- Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn adrodd ar y strategaeth a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- adolygiad canol blwyddyn;
- adroddiad blynyddol ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys, effeithiau'r penderfyniadau a wnaed a'r trafodion a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf, ac ar unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r datganiad ar bolisi rheoli trysorlys a TMPs y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn gyfrifol am sgrwtineiddio gweithgareddau a dangosyddion rheoli trysorlys. Manylir ar y trefniadau presennol a diwyg yr adroddiadau hyn isod:-

Cynnwys ac amllder yr adroddiadau a gyflwynir i'r bwrdd pwyllgor	<ul style="list-style-type: none">• Bydd pob un o'r adroddiadau uchod yn mynd yn y lle cyntaf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu sgrwtineiddio. Byddant wedyn yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw gyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud argymhellion a'r adroddiadau wedyn yn mynd gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo.
---	--

TMP7 – Trefniadau cyllidebu, cyfrifo ac archwilio

Bydd y swyddog cyfrifol yn paratoi cyllideb flynyddol ar gyfer rheoli trysorlys ac yn ei diwygio o bryd i'w gilydd os bydd angen hynny a bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r camau gweithredu hyn. Bydd y materion a gaiff eu hymgorffori yn y gyllideb yn cynnwys, fel gofyniad sylfaenol, y rhai hynny sy'n ofynnol trwy statud neu reoliad, ynghyd â gwybodaeth a fydd yn dangos cydymffurfiaeth â rheoliad TMP1, Rheoli Risg, TMP2 Mesur Perfformiad a TMP4 Offerynnau, Dulliau a Thechnegau a Gymeradwywyd. Bydd y swyddog cyfrifol yn rheoli'r gyllideb hon yn effeithiol a bydd yn adrodd ar, ac yn argymhell, unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud yn unol TMP6 Gofynion Adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli.

Bydd y Cyngor yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli trysorlys; am y penderfyniadau a wnaed a'r trafodion ariannol a weithredwyd a hynny'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol; safonau, gofynion statudol a rheoleiddiol sydd mewn grym am y pryd.

Gofynion statudol rheoleiddiol /	<ul style="list-style-type: none">• Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys (gweler 1.6 uchod). Mae Côt Rheoli Trysorlys CIPFA 2011 a CIPFA a Chôt Darbodus 2013 yn ymgorffori'r gofynion cyfreithiol hyn ac yn eu atodi gyda chanllawiau ymarferol. Felly, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r côd, a bydd yn rheoli ei swyddogaeth rheoli trysorlys yn unol â chodau CIPFA.
Arferion safonau cyfrifyddu a	<ul style="list-style-type: none">• Fel y nodir uchod, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â chodau canlynol CIPFA i sicrhau arferion cyfrifyddu priodol a chydymffurfiaeth â safonau mewn perthynas â'i swyddogaeth rheoli trysorlys:-<ul style="list-style-type: none">• Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys 2011 ac arweiniad cysylltiedig;• Côt Darbodus CIPFA 2013;• CIPFA SerCOP;• Côt Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon mewn Awdurdodau Lleol a chanllawiau cysylltiedig i ymarferwyr.

<p>Rhestr o'r wybodaeth y bydd archwilwyr allanol yn gofyn amdani</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd adroddiad ar y trafodion, asedau a rhwymedigaethau Rheoli Trysorlys yn cael ei gynnwys yn Natganiad Cyfrifon blynyddol y Cyngor sy'n destun archwiliad allanol; • Bydd y Cyngor yn caniatáu mynediad at yr holl wybodaeth rheoli trysorlys y mae'r tîm archwilio ei hangen i wirio bod y cyfrifon yn adlewyrchiad cywir a theg o faterion ariannol y cyngor gan gynnwys gweithgareddau rheoli trysorlys; • Mae yna nifer o nodiadau penodol mewn perthynas â rheoli trysorlys. Bydd papurau gwaith cadarn, tystiolaeth o'r ffynonellau a thrafodion a balansau'r system ariannol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol yn cael eu cynnwys gyda'r nodiadau hyn; • Dyma enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth rheoli trysorlys y bydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad:- <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys; • Adroddiad rheoli trysorlys blynyddol a chanol; • Arferion Rheoli Trysorlys; • Benthyciadau newydd a gymerwyd yn ystod y flwyddyn, dogfennaeth mewn perthynas â'r ffynhonnell; • Rhestr lawn o'r benthyciadau y mae angen eu talu'n ôl a'r dyddiadau y maent yn aeddfedu; • Benthyciadau a ailstrwythurwyd yn ystod y flwyddyn gan gynnwys premiymau a gostyngiadau; • Cydymffurfiaeth â gofynion cyfrifyddu; • Amorteiddio enillion neu golledion ar ail-brynu benthyciadau; • Dadansoddiad o fenthyca rhwng y tymor byr a'r tymor hir; • Costau ariannu dyledion a chyllido gan gynnwys cyfrifiadau a chlandriadau; • Cyfrifiadau MRP a dadansoddiad o'r symudiad yn y CFR; • Sefyllfa o ran gorddrafft banc (os oes un); • Costau'n ymwneud â broceriaeth, comisiynau a thrafodion; • Trafodion buddsoddi yn ystod y flwyddyn gan gynnwys unrhyw gostau trafodion; • Balansau arian parod a banc ar ddiwedd y flwyddyn; • Buddsoddiadau tymor byr a thymor hir ar ddiwedd y flwyddyn gan gynnwys dogfennau am y ffynhonnell; • Cyfrifo llog a llog sydd wedi cronni; • Llog gwirioneddol a dderbyniwyd; • Adroddiad Gwerth Teg Capita; • Tystiolaeth o deitl i fuddsoddiadau; • Cysoni'r symudiad mewn arian parod i'r symudiad yn y ddyled net; • Arian sy'n llifo i mewn ac allan; • Cynnydd / gostyngiad net yn y benthyciadau tymor byr, adneuon tymor-byr a ffynonellau hylifol eraill.
<p>Archwilio mewnol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae archwilio mewnol yn adolygu systemau rheoli trysorlys ac yn rhoi profion arnynt yn rheolaidd. Bydd unrhyw gais am wybodaeth gan yr archwilwyr mewnol yn cael ei ddarparu cyn gynted ag sy'n bosibl ac o fewn 3 diwrnod gwaith fan bellaf.

Oni bai bod gofynion statudol neu reoleiddiol yn mynnu fel arall, y Swyddog A151 fydd yn rheoli'r holl arian sydd yn nwylo'r sefydliad hwn, a bydd yn cael ei agregu i bwrpas rheoli llif arian a buddsoddiadau. Bydd rhagamcanion o'r llif arian yn cael eu paratoi'n rheolaidd ac yn brydlon, a bydd y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol i ddibenion monitro cydymffurfiaid â TMP1[1] *rheoli risg hylifedd*. Caiff y trefniadau presennol ar gyfer paratoi rhagamcanion llif arian, a'u ffurf, eu nodi yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

<p>Trefniadau ar gyfer paratoi / cyflwyno datganiadau llif arian</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff rhagolwg manwl o'r llif arian blynyddol ei baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn dilyn cymeradwyo'r gyllideb; • Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth y gyllideb a bydd yn edrych ar wybodaeth hanesyddol; • Bydd y rhagolygon o'r llif arian yn rhoi syniad am yr arian a fydd yn llifo i mewn ac allan bob mis a chaiff ei adolygu'n rheolaidd bob mis; • Yn ogystal, cedwir cofnod o symudiadau a balansau'r llif arian a chaiff ei ddiweddarau bob bore a phrynhawn. Caiff ei lofnodi naill ai gan yr Uwch Gyfrifydd ar gyfer Cyfalaf, Rheoli Trysorlys neu gan reolwr llinell neu Reolwr Cyllid, Uwch Gyfrifydd neu uwch nad yw'n yn rhan o'r broses o awdurdodi unrhyw drafodion rheolaeth trysorlys y diwrnod hwnnw os mai'r Uwch Gyfrifydd ei hun wnaeth eu cwblhau; • Mae'r rhagolygon llif arian a'r cofnod dyddiol o'r llif arian o gymorth i wneud penderfyniadau a nodi unrhyw brinder neu ormoddedd o arian parod; • Caiff trafodion a balansau rheoli trysorlys eu cofnodi ar feddalwedd Logotech rheoli trysorlys y Cyngor i bwrpas monitro a rheoli gwybodaeth.
<p>Cynnwys ac amlder rheoli llif arian</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff llif arian yn cael ei fonitro yn y bore a'r prynhawn a chaiff y rhagolygon mewn perthynas â'r llif arian blynyddol eu hadolygu'n rheolaidd; • Dyma'r wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â llif arian:- • Arian y gwyddys ei fod yn dod i mewn yn rheolaidd: RSG, derbyniadau TAC, derbyniadau'r Dreth Gyngor; • Amcangyfrif o'r arian a ddaw i mewn: grantiau, incwm amrywiol (ffioedd a thaliadau ac ati); derbyniadau cyfalaf; • Amcangyfrif o'r arian sy'n cael ei dalu allan: cyflogau, pensiynau, ac ati; budd-daliadau tai; credydwyr ac ati.
<p>Rhestru ffynonellau gwybodaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae systemau ar waith i sicrhau bod y tîm rheoli trysorlys yn cael eu hysbysu ynghylch llif arian sylweddol. Mae cyfrif e-bost penodol ar gyfer Rheoli Trysorlys y mae credydwyr, y gyflogres ac ati yn anfon manylion iddo am symiau sydd i'w talu allan; • Bydd credydwyr yn rhoi gwybod i'r tîm am swm taliadau pob credydwyr ac mae hynny'n rhoi 2 ddiwrnod i sicrhau balans yr arian parod yn ddigonol; • Mae'r gyflogres yn cadarnhau'r symiau 2 ddiwrnod cyn talu cyflogau; • Mae'r gwasanaethau cyfreithiol ac eiddo yn hysbysu'r tîm am unrhyw dderbyniadau cyfalaf disgwylidig; • Mae'r rheolwr grantiau yn hysbysu'r tîm Rheoli Trysorlys am y grantiau a ddisgwylir a hynny fel arfer unwaith y bydd y ffurflenni hawliau grantiau wedi cael eu cwblhau; • Mae'r tîm yn edrych ar yr incwm amrywiol cyfartalog yn y gorffennol i amcangyfrif hyn.

Gweithdrefnau Datganiadau Banc	<ul style="list-style-type: none"> Mae datganiadau banc papur yn cael eu hanfon bob mis gan Natwest a'r gwrthbartion y mae gennym adneuon ynddynt; Yn ogystal, mae mynediad amser gwirioneddol ar gael drwy Bankline neu gyfleusterau bancio ar-lein y gwrthbartion.
Amserlenni ar gyfer talu a chytuno telerau masnachu gyda chredydwy	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn talu credydwy ar y rhediad credydwr nesaf wedi i'r anfonebau gael eu hawdurdodi. Mae hyn yn debygol o ddigwydd cyn i'r telerau masnachu ddod i ben. Gwneir hyn er mwyn cefnogi'r economi leol a busnesau bach. Fodd bynnag, os oedd anawsterau o ran llif arian, byddai'r Cyngor yn ail-ystyried ac yn dychwelyd i'r drefn o dalu yn unol â'r telerau masnachu sydd, fel arfer, yn 30 diwrnod.
Trefniadau ar gyfer monitro lefelau credydwy / dyledwy	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r system ariannol Civica yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd er mwyn caniatáu i'r tîm rheoli fonitro lefelau credydwy a dyledwy. Bob chwarter, caiff y ddarpariaeth dyledion drwg ei hadolygu.
Gweithdrefnau ar gyfer bancio arian	<ul style="list-style-type: none"> Fel arfer, caiff arian ei drosglwyddo yn electronig; Lle mae arian parod yn cael ei gasglu yn adeiladau'r awdurdod, er enghraifft, yn y canolfannau hamdden, bydd Securityplus yn ei gasglu ac yn talu'r arian parod a'r sieciau ganolfan arian / arian parod Natwest; Bydd arian a delir yn swyddfeydd sirol y Cyngor a'r ysgolion yn cael ei dalu i mewn i'r banc Natwest agosaf ar y cyfle cyntaf yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

TMP9 – Gwyngalchu Arian

Mae'r sefydliad hwn yn effro i'r posibilrwydd y gallai ddod yn destun ymgais i'w gynnwys mewn trafodiad sy'n cynnwys gwyngalchu arian. Yn unol â hynny, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi pwy yw'r gwrthbartion ac adrodd ar unrhyw amheuan, a bydd yn sicrhau bod staff sy'n ymwneud â hyn yn cael eu hyfforddi'n briodol. Mae'r trefniadau presennol, gan gynnwys enw'r swyddog y dylid rhoi gwybod iddo/iddi, wedi eu cynnwys isod.

Polisi a gweithdrefnau i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn dilyn polisiâu'r Cyngor isod i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian; Polisi Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer atal twyll a llygredd, 2012; Cynllun ymateb i dwyll 2012; Dylid mynd a pryderon ynglyn a gwyngalchu arian at y Swyddog Adran 151.
Gweithdrefnau ar gyfer sefydlu pwy yw benthycwyr a'u dilysrwydd	<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd y Cyngor ond yn ymrwymo i drefniadau benthyca gyda sefydliadau sydd wedi cael eu gwirio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol www.fsa.gov.uk a gyda chynghor gan ein Hymgynghorwyr Rheoli Trysorlys arbenigol.
Methodoleg ar gyfer nodi ffynonellau adneuon	<ul style="list-style-type: none"> Bydd yr holl wrthbartion ar y rhestr o wrthbartion cymeradwy ac yn cydymffurfio â'r TMSS. Bydd yr holl wrthbartion yn sefydliadau sydd wedi eu graddio ar y rhestr statws credyd a ddarparwyd gan Capita. Caiff y rhain raddfeydd tymor hir a thymor byr gan Fitch, Moodys a S & P.
Trafodion Rheoli'r Trysorlys	<ul style="list-style-type: none"> Mae trefn y Cyngor o wahanu dyletswyddau y manylir arno uchod yn TMP 5, yn lleihau'r risg o wyngalchu arian a thwyll.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn cael eu paratoi'n llawn i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt. Felly, bydd yn ceisio penodi unigolion sydd yn fedrus ac yn brofiadol a bydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff er mwyn eu galluogi i ennill a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau. Bydd y Swyddog Adran 151 yn argymhell ac yn gweithredu'r trefniadau angenrheidiol.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod aelodau'r bwrdd/y cyngor sydd yn gyfrifol am reoli trysorlys, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am sgriwteiddio, yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w hanghenion a'r cyfrifoldebau hynny. Bydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant yn cydnabod eu cyfrifoldeb unigol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gwblhau eu rôl yn effeithiol.

Manylion y cyrsiau hyfforddi cymeradwy	<ul style="list-style-type: none"> • Cyrsiau Rheoli Trysorlys CIPFA a Capita.
Manylion y gymwysterau cymeradwy	<ul style="list-style-type: none"> • Cymwysterau cyfrifeg CCAB cyfrifeg, AAT, cymwysterau Rheoli Trysorlys achrededig penodol.
Manylion am gymwysterau staff trysorlys	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Uwch Gyfrifydd - Cyfalaf, Rheoli Trysorlys ac Ymddiriedolaethau yn aelod cymwys o CIPFA ac â gradd mewn Cyfrifeg a Chyllid; • Mae'r Rheolwr Cyllid - Corfforaethol, Technegol a Systemau yn aelod cymwys o CIMA cymwysedig ac â gradd mewn Gwyddor Rheoli - Economeg ac MA yn y gyfraith.
Cofnod o hyfforddiant y staff	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tîm yn mynychu cyrsiau rheoli trysorlys CIPFA a Capita yn rheolaidd er mwyn cadw i fyny gyda'r datblygiadau diweddaraf yn y maes Rheoli Trysorlys; • Caiff cofnodion hyfforddiant eu cadw gan Gydlynnydd Hyfforddiant y swyddogaeth a chan adnoddau dynol.
Cofnodion o hyfforddiant a dderbyniwyd gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddir hyfforddiant i aelodau bob blwyddyn gan Capita. Bydd rhai aelodau o'r UDA yn ogystal a'r tîm rheoli trysorlys yn mynychu'r hyfforddiant hwn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai'r sefydliad sydd â chyfrifoldeb bob amser am benderfyniadau rheoli trysorlys. Mae'n cydnabod y gallai fod gwerth posibl i gyflogi darparwyr gwasanaethau rheoli trysorlys allanol, er mwyn cael at sgiliau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn cyflogi darparwyr gwasanaethau yn y modd hwn, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau sydd wedi cael eu gwerthuso'n llawn o safbwynt y costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir i asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n gywir a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd hefyd yn sicrhau, lle mae hynny'n ymarferol ac yn angenrheidiol, fod amrediad o ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu defnyddio, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un neu nifer fechan o gwmnïau. Lle mae rhaid tendro neu ail-dendro gwasanaethau, byddir yn glynu wrth ofynion deddfwriaethol bob amser. Y swyddog cyfrifol fydd yn monitro trefniadau o'r fath a chaiff manylion am y trefniadau cyfredol eu nodi isod:-

<p>Manylion y contractau gyda darparwyr gwasanaeth, gan gynnwys banciau, broceriaid, ymgynghorwyr, gwasanaeth cyngori a manylion am y gwasanaethau a ddarperir</p>	<p><u>Bancio:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Prif fancwyr y Cyngor yw: NatWest sy'n rhan o grŵp RBS, Ffordd Glanhwfa, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7YW; • Mae gan y Cyngor cyfrifon gyda Santander a'r banc Cooperative ar gyfer GIROs swyddfa bost a paypoint. <p><u>Ymgynghorydd y Trysorlys:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Capita Asset Services, 71 Victoria Street, Westminster, Llundain, SW1H 0XA. <p><u>Broceriaid:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Partneriaid BGC; • ICAP; • King a Shaxson; • RP Martin; • Tullet Prebon; • Tradition UK. <p><u>Trafodion BACS</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Bottomline Technologies
<p>Statws Rheoleiddiol y gwasanaethau a ddarperir</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae pob yn sefydliad a reoleiddir.
<p>Gweithdrefnau ac amllder ar gyfer gwasanaethau tendro</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn ymrwmo i lynu wrth y rheolau Gweithdrefn Contractau sy'n rhan o'r cyfansoddiad. Rhaid hysbysebu unrhyw gontractau sy'n debygol o fod yn £25k neu'n uwch ar gwerthwchigymru. Cafodd y contract ymgynghoriaeth rheoli trysorlys hefyd ei hysbysebu ar gwerthwchigymru a'i werthuso'n gadarn er bod swm y contract yn llai na'r swm gorfodol; • Argymhellir bod contractau'n rhedeg am gyfnod o 3 blynedd gydag opsiwn i ymestyn am hyd at 2 flynedd gyda chytundeb y ddau barti.

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau llywodraethiant corfforaethol priodol ar draws ei fusnesau a'i wasanaethau, ac i sefydlu'r egwyddorion a'r arferion ar gyfer cyflawni hynny. O'r herwydd, bydd y bydd y swyddogaeth rheolaeth trysorlys a'i gweithgareddau yn cael eu cynnal yn agored, yn dryloyw a chyda gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ac wedi gweithredu egwyddorion allweddol y Côd. Ystyrir bod hyn, ynghyd â'r trefniadau eraill y manylir arnynt drwy'r ddogfen hon, yn hanfodol i sicrhau llywodraethiant corfforaethol priodol wrth reoli trysorlys. Bydd y Swyddog S151 yn monitro ac, os a phan fo angen, yn adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

<p>Rhestr o ddogfennau cyhoeddus i fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Cyfrifon Blynnyddol; • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys; • Adroddiad canol-blwyddyn ar Reoli Trysorlys; • Adroddiad Blynnyddol ar Reoli Trysorlys; • Arferion Rheoli Trysorlys.
<p>Gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori gydag chydranddeiliaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghorir bob blwyddyn â chydranddeiliaid ar y gyllideb flynyddol sy'n cynnwys cyllidebau refeniw rheoli trysorlys.
<p>Rhestr o Gronfeydd allanol a reolir ar ran eraill a'r sail ar gyfer priodoli llog a enillwyd a chostau i'r buddsoddiadau hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn rheoli nifer o gyfrifon apwyntai / gwarcheidwadaeth ar ran unigolion. Nid yw'r rhain yn rhan o'r Contract Gorfforaethol ond yn cael eu cadw gyda banc y Cyngor Natwest. Bydd unrhyw gostau y gellir eu priodoli i'r cyfrifon yn cael eu codi ar y cyfrifon a bydd unrhyw log a enillir hefyd yn cael ei dalu ar sail wirioneddol ar gyfer y cyfrif hwnnw; • Mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr i nifer o ymddiriedolaethau elusennol ac ymddiriedolaethau llai. Mae'r gyfradd log gyfartalog ar adneuo yn berthnasol i falansau'r ymddiriedolaethau hyn. Lle mae gan yr ymddiriedolaeth ei gyfrif banc penodol ei hun, bydd yr ymddiriedolaeth yn derbyn y llog a enillir ar y cyfrif yma. Codir tâl ar bob ymddiriedolaeth i gwrdd â chostau gweinyddu rheoli'r ymddiriedolaethau a hynny'n unol â chyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau; • Ambell waith bydd y Cyngor yn dal arian ar ran mudiadau, er engraifft Bondiau Advance Payment Code (APC) lle mae'r Cyngor yn dal arian fel gwarant hyd nes bydd y mudiad wedi cyflawni eu gofynion cytundebol. Telir llog ar y prif swm fel cyfartaledd ar gyfrifon cadw. Yn aml mae'r gyfraith yn rhagnodi sut mae llog yn cael ei dalu a pha gostau gaiff eu codi; • Bydd cyfrifon cadw eraill, bondiau Advance Payments yn hel llog ar y cyfradd cyfartalog ar bob cyfrif cadw am y flwyddyn oni bai bod cyfrif penodol am y cyfrifon cadw yna, bond neu cyndaliad lle mae llog penodol yn cael ei enill.

Dyddiad ei sgrwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant: 6 Rhagfyr, 2016

Dyddiad ei gymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151: 6 Rhagfyr, 2016

Awdur: Claire Klimaszewski

Dyddiad Adolygu: Tachwedd 2019 neu'n gynharach os yw unrhyw bolisi sydd wedi ei gynnwys yn y TMSS yn cael ei ddiwygio

Llyfryddiaeth

CIPFA. 2011 ymlaen. Côd Ymarfer ar Reoli Trysorlys CIPFA. Llundain.

CIPFA. 2013. Côd Darbodus.CIPFA. Llundain.

Ynys Môn. 2016. Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18. Cyngor Sir Ynys Môn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I'R	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	6 RHAGFYR, 2016
PWNC	BLAENRAGLEN WAITH
SWYDDOG ARWEINIOL	PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL - MIKE HALSTEAD
SWYDDOG CYSWLLT	RHEOLWR ARCHWILIO - SIONED PARRY
Natur yr adroddiad a'r rheswm dros adrodd - Cyflwyno Blaenraglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer gweddill 2016/17 a 2017/18.	

1 RHAGARWEINIAD

- 1.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r rheini sy'n gyfrifol am faterion llywodraethu ynghylch digonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol ac uniondeb yr adroddiadau ariannol. Trwy oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol wedi eu sefydlu.
- 1.2 Mae rhaglenni'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnwys nifer o adroddiadau y mae angen i aelodau eu hystyried yn rheolaidd i'w diweddarau - naill ai ym mhob cyfarfod neu ar adegau penodol yn y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, weithiau mae aelodau yn gofyn am adroddiadau penodol pellach ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac ar sylwadau a wnaed eisoes.
- 1.3 Yn wyneb sylwadau a wnaed gan Aelodau mewn cyfarfodydd blaenorol a'r pryderon a godwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i gyflawni ei swyddogaethau fel y nodir nhw yn y cylch gorchwyl a gymeradwywyd ar 9 Chwefror 2015, paratowyd rhaglen waith ac mae ynghlwm yn **Atodiad A**. Bydd y rhaglen, i bob pwrpas, yn darparu rhaglen ddrafft dros dro ar gyfer pob cyfarfod a drefnwyd.
- 1.4 Byddai'r flaenraglen waith yn gweithredu fel cofnod o bryderon y Pwyllgor Archwilio ac yn sicrhau bod y cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r pryderon hynny yn cael sylw rheolaidd gan y Pwyllgor, a hynny mewn ffordd fydd wedi ei chynllunio. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Aelodau ofyn am eitemau i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ac yn caniatáu digon o amser i Swyddogion gyflwyno'r wybodaeth a diweddariadau.
- 1.5 Ar ddiwedd pob Pwyllgor byddai'r eitem ddiwethaf yn caniatáu i Aelodau ddiweddarau'r flaenraglen waith gan gymryd i ystyriaeth yr eitemau a gafodd sylw gan y Pwyllgor ac unrhyw bryderon sydd wedi deillio ohonynt.

2 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i Aelodau ystyried a chymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer gweddill 2016/17 a 2017/18.
- 2.2 Adroddir ar unrhyw newidiadau i'r rhaglen fel eitem safonol ar raglen pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

BLAENRAGLEN WAITH

RHAGFYR 6, 2016

Swyddog Cyswllt:	Sioned Parry
	Rheolwr Archwilio
E-bost:	SionedParry@ynysmon.gov.uk
Ffôn:	01248 756211

Dyddiad	Pwnc	Swyddog cyfrifol (Gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
<p>Chwefror 9, 2017</p> <p>25 Gorffennaf, 2017</p> <p>Medi 21, 2017</p> <p>Rhagfyr 5, 2017</p> <p>Chwefror 13, 2018</p>	<p>Cynnydd a wnaed ynghylch Adroddiadau gan Reoleiddwyr Allanol</p> <p>Ystyried y cynnydd a wnaed ynghylch Adroddiadau gan Reoleiddwyr Allanol sy'n ymwneud yn uniogyrchol â materion llywodraethu neu reoli risg o fewn y Cyngor.</p>	<p>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk</p>
<p>Chwefror 9, 2017</p> <p>Medi 21, 2017</p>	<p>Ymchwiliadau i Fudd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor</p> <p>Bydd yr adroddiad yn nodi manylion y ceisiadau yr ymchwiliwyd iddynt yn llwyddiannus gan y Tîm Ymchwilio i Fudd-daliadau.</p>	<p>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) MarcJones@ynysmon.gov.uk</p>
<p>Chwefror 9, 2017</p> <p>Mehefin 28, 2017</p> <p>25 Gorffennaf,</p>	<p>Perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynnyddol</p> <p>Adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynnyddol bob chwarter.</p>	<p>Rheolwr Archwilio SionedParry@ynysmon.gov.uk</p>

<p>2017 Rhagfyr 5, 2017 Chwefror 13, 2018</p>		
<p>Mehefin 28, 2017</p>	<p>Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynghylch yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17.</p>	<p>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) MarcJones@ynysmon.gov.uk</p>
<p>Medi 21, 2017</p>	<p>Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/2018 Bydd yr adroddiad yn ymhelaethu ar sefyllfa'r Cyngor o ran cydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys a'i Strategaeth Fuddsoddi, ac yn nodi'r sefyllfa gyfredol o ran buddsoddiadau a benthyca.</p>	<p>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) MarcJones@ynysmon.gov.uk</p>
<p>Medi 21, 2017</p>	<p>Gweithgaredd Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2017/2018 Mae'n rhaid darparu adroddiad trysorlys blynyddol yn unol â gofynion gweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n rhoi sylw i weithgarwch y trysorlys ar gyfer 2017/2018. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2017/2018 yn unol â gofynion y Côd Darbodus.</p>	<p>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) MarcJones@ynysmon.gov.uk</p>
<p>Medi 21, 2017</p>	<p>Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ynghylch yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/2017. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor, ac mae hefyd yn gyfrifol am faterion llywodraethu. Felly, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/2017, gan gynnwys Datganiad Cyfrifon 2016/2017, derbyn adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar y</p>	<p>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) MarcJones@ynysmon.gov.uk</p>

	cyfrifon a'r ISA 260 sy'n nodi bod gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth terfynol.	
Rhagfyr 6, 2016 Mehfin 28, 2017 Rhagfyr 5, 2017	Cofrestr Risgiau Corfforaethol Ystyried y risgiau corfforaethol a nodir yn y Gofrestr.	Rheolwr Risg ac Yswiriant JulieJones@ynysmon.gov.uk
Mawrth 2017	Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2017-2018 Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am 2013 lle cyflwynir Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w cymeradwyo.	Rheolwr Archwilio SionedParry@ynysmon.gov.uk
Rhagfyr 6, 2016 Chwefror 9, 2017	Strategaeth Fuddsoddi / Polisi Isafswm Refeniw Rhoi gwybod i'r Aelodau am y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Isafswm Refeniw ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) MarcJones@ynysmon.gov.uk

Eitemau yn y Dyfodol		
Mehefin 28, 2017	Cynllun Gweithredu ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/2017 Adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/2016.	Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
Mehefin 28, 2017	Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/2017 O dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad bob blwyddyn o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol ac adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn Cynllun Archwilio Blynyddol 2016/2017.	Rheolwr Archwilio SionedParry@ynysmon.gov.uk
25 Gorffennaf, 2017	Datganiad Llywodraethu Blynyddol Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2016/2017 a chyfrannu at yr arfarniadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod 2017/2018.	Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
Chwefror 9, 2017	Diweddariadau ar Archwiliadau Mewnol: Parhad Busnes Adfer TGCh ar ôl Trychineb	Rheolwr Archwilio SionedParry@ynysmon.gov.uk
Mehefin 28, 2017	Diweddariad Archwiliad Mewnol: Diogelu Corfforaethol	Rheolwr Archwilio SionedParry@ynysmon.gov.uk

DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

Teitl yr Adroddiad : Cofrestr Risg Corfforaethol
Title of Report : Corporate Risk Register

PRAWF BUDD Y CYHOEDD **PUBLIC INTEREST TEST**

Paragraff(au) Paragraph(s) 14	Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972
[un neu fwy o /one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C]	
Y PRAWF – THE TEST	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.</p> <p>The matter concerns the business affairs of the Council.</p>	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.</p> <p>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/Hai o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank